Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 24 EBRILL 2018 am 2:00 y. p. | TUESDAY, 24 APRIL, 2018 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 13 CHWEFROR, 2018</u>** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2018.

**3** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2017/18</u>** (Tudalennau 13 - 26)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**4** **<u>ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD</u>** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan Archwilio Allanol.

**5** **<u>ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO 2018</u>** (Tudalennau 39 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan Archwilio Allanol.

**6** **<u>DIWEDDARIAD AR GYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL</u>** (Tudalennau 65 - 90)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg.

**7** **<u>BLAEN RAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 91 - 96)

Cyflwyno’r Blaen Raglen Waith i’w hystyried a’i hadolygu.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Griffiths, Gwilym O. Jones, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio a Risg (MP)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid), Prif Weithredwr, Gwilym Bury (Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru), Uwch Archwilydd Mewnol (SJ), Uwch Archwilydd Mewnol (EC) |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. COFNODION CYFARFOD 5 RHAGFYR, 2017**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi -

Cadarnhaodd y Cadeirydd, fel y nodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod Rhagfyr, 2017, bod cyfarfod rhyngddo ef, y Swyddogion a'r ddau Aelod Lleyg ar y Pwyllgor wedi ei drefnu er mwyn ystyried y ffordd orau o hwyluso rôl yr Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor. Roedd y ddau Aelod Lleyg wedi mynegi yn y cyfarfod blaenorol y byddai cael yr holl adroddiadau archwilio mewnol, yn hytrach na dim ond y rhai hynny â barn Sicrwydd Cyfyngedig, yn eu helpu nhw i ddeall sut y mae casgliadau archwilio yn cael eu llunio a'r farn sy'n cael ei rhoi gan felly wella effeithlonrwydd eu trosolwg a'u rolau fel aelodau sgriwtini. Dywedodd y Cadeirydd bod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror gyda Mr Dilwyn Evans, un o'r Aelodau lleyg, wedi profi'n ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Canlyniad y cyfarfod oedd y byddai'r broses bresennol yn parhau ond y byddai'r Pennaeth Archwilio a Risg yn edrych i ddarparu ychydig mwy o fanylder ar archwiliadau a oedd wedi'u cwblhau yn yr adroddiadau diweddaru a gyflwynir i'r Pwyllgor.

**3. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn nodi'r gwaith a gyflawnwyd gan yr Adran Archwilio Mewnol hyd at 26 Ionawr, 2018, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor. Darparodd yr adroddiad grynodeb o'r adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynwyd ers 17



DRAFT

Tachwedd, 2017; canlyniadau'r adolygiadau dilynol o archwiliadau archwilio mewnol blaenorol; gweithrediad camau rheoli; cynnydd ar ddarparu'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2017/18 ynghyd â'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r adolygiad a gynlluniwyd o gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y prif faterion fel a ganlyn ac wrth wneud hynny fe gadarnhaodd ei bod wedi ceisio cadw cydbwysedd rhwng darparu'r adroddiadau archwilio llawn, sy'n cynnwys llawer mwy o wybodaeth na sydd ei angen yn ymarferol ar y Pwyllgor er mwyn gallu herio ac at ddibenion sicrwydd, a chynyddu lefel y manylion am bob archwiliad -

Nodwyd fod pum adroddiad adolygu Archwilio Mewnol wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod dan sylw a oedd yn ymdrin â'r meysydd isod. Canlyniad yr holl adolygiadau oedd graddfa sicrwydd Rhesymol neu Sylweddol:

- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (Rhesymol) – 3 o risgiau lefel gymedrol wedi eu codi
- Gwariant Cyfalaf (Sylweddol) – dim risgiau na materion wedi eu codi
- Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Credyd Cynhwysol (Rhesymol) – 3 risg sylweddol, 7 cymedrol ac 1 mân fater/risg wedi eu codi.
- Rhaglen Cefnogi Pobl (Sylweddol) – dim risgiau na materion wedi eu codi
- Atgyfeiriad – Gordaliad Cyflogres – adolygiad ymgynghorol

Ymhelaethodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar ganfyddiadau'r adolygiadau hynny lle'r oedd risgiau a/neu faterion wedi codi, natur a graddau'r risgiau a oedd wedi eu hadnabod, y camau cywirio sydd/a fydd yn cael eu cymryd, a'r rhesymeg ar gyfer y casgliad archwilio y daethpwyd iddo. Cyfeiriodd y Swyddog yn benodol at yr adolygiad archwilio o Renti Tai lle'r oedd 3 risg sylweddol wedi eu nodi. Er hynny fe gadarnhaodd y Swyddog, o ganlyniad i'r gwaith paratoi a oedd wedi'i wneud gan y Gwasanaethau Tai mewn parodrwydd ar gyfer cyflwyniad Credyd Cynhwysol, bod Archwilio Mewnol yn gallu darparu Sicrwydd Rhesymol ar gyfer y maes hwn.

- Bod 6 adolygiad dilynol o adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod gyda'r canlyniadau canlynol –

  - **Mynediad Rhesymegol ac Arwahanu Dyletswddau ( Logical Access and Segregation of Duties (Dilyn i fyny am yr ail waith)** - daethpwyd i'r casgliad, o ganlyniad i'r cyfnod o amser y mae'r risgiau/materion a gafodd eu hadnabod yn yr archwiliad gwreiddiol yn 2014/15 ac yn dilyn hynny yn yr adolygiad dilynol cyntaf ym mis Ionawr 2015 wedi bod yn disgwyl am sylw, mai ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion a gytunwyd er mwyn mynd i'r afael â'r holl argymhellion archwilio. O ganlyniad, ac oherwydd natur y risgiau sydd heb eu penderfynu sy'n ymwneud â staff yn derbyn polisïau TGCh a materion yn ymwneud â gwahaniad dyletswyddau yn y system Gyflogres, mae lefel y sicrwydd yn parhau i fod yn Gyfyngedig. Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod trefniadau yn eu lle i ddiweddaru ac integreiddio'r Gyflogres a'r Systemau AD a fydd yn galluogi mwy o dasgau i gael eu cyflawni'n electronig ac y bydd yn mynd i'r afael â'r mater o arwahanu dyletswyddau. Bydd yr uwchraddiad hefyd yn cysylltu'r broses recriwtio â Chyflogres yn electronig a fydd yn gwneud i ffwrdd â'r angen i staff cyflogres sefydlu cofnodion cyflogres â llaw. Cafwyd ychydig o oedi o ganlyniad i faterion technegol ac mae angen ailddylunio'r prosesau busnes er mwyn adlewyrchu arwahaniad newydd o ddyletswyddau/cyfrifoldebau. Er y bydd hyn yn cymryd amser, mae gan y prosiect ddyddiad cau arfaethedig o fis Medi, 2018.
  - **Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Chynlluniau Benthyg Hunan Adeiladu (Dilyn i fyny am yr ail waith) -** daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor wedi arddangos cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â risgiau archwilio. Gan ystyried y materion a

DRAFT

    gafodd eu hadnabod yng ngweddill yr adroddiad, mae lefel y sicrwydd bellach wedi cynyddu i Rhesymol.

    - **Tai Gofal Ychwanegol (Dilyn i fyny am y tro cyntaf)** – daethpwyd i’r canlyniad bod y Cyngor wedi arddangos cynnydd da o ran mynd i’r afael â’r materion/risgiau ac o ganlyniad, mae’r raddfa sicrwydd wedi cynyddu i Sylweddol.
    - **Cydymffurfiaeth â Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (Dilyn i fyny am y tro cyntaf)** - daethpwyd i’r casgliad mai ychydig iawn o gynnydd mae’r Cyngor wedi’i wneud er mwyn mynd i’r afael â’r materion/Risgiau ac mae’r raddfa sicrwydd yn parhau i fod yn Sicrwydd Cyfyngedig. Bydd Archwilio Mewnol yn ail ymweld â’r maes hwn yn ystod Hydref 2018 er mwyn monitro cynnydd mewn perthynas â mynd i’r afael â’r risgiau. Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y gofynion mewn perthynas â PCI DSS a’r hyn mae’n ei olygu i’r Cyngor o ran sicrhau diogelwch y data y mae’n ei ddal ynghylch cardiau. Bydd diweddariad wedi’i gynllunio o’r system Rheoli Incwm, a fydd yn brosiect a fydd yn cael ei reoli, yn helpu i fynd i’r afael â materion PCI DSS; fodd bynnag, gan fod bodloni’r gofynion yn llawn yn cynnwys nifer o wahanol dasgau, rhai ohonynt yn gymhleth, mae’n brosiect ar gyfer y tymor hwy.
    - **Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus (Dilyn i fyny am y tro cyntaf**) – daethpwyd i’r casgliad fod y Cyngor wedi arddangos cynnydd rhesymol wrth weithredu’r gweithredoedd a gytunwyd arnynt er mwyn mynd i’r afael â’r argymhellion archwilio. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r risg “catastroffig”, mae lefel y risg yn parhau i fod yn Gyfyngedig. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad dilynol pellach yn ystod 2018/19.
    - **Fframwaith Caffael Corfforaethol (Dilyn i fyny am y tro cyntaf)** - daethpwyd i’r casgliad fod y Cyngor wedi arddangos cynnydd da wrth weithredu gweithredoedd oedd â dyddiad targed a gytunwyd arno o Ragfyr, 2017. Fodd bynnag, mae lefel sicrwydd yr adroddiad yn parhau i fod yn un Cyfyngedig o ganlyniad i lefel blaenoriaeth gweddill y materion a godwyd sydd eto i gyrraedd eu dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu. Cynhelir adolygiad dilynol pellach ym mis Gorffennaf, 2018.
    - **Cludiant ysgol (Archwiliad dilynol ar y gweill)** - ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr, 2018 yn dilyn atgyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Yn dilyn trafodaeth fanwl ar y materion a godwyd gan yr adolygiad archwilio a’r sicrwydd a roddwyd i’r cyfarfod gan y Gwasanaethau Priffyrdd a Dysgu, roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gyffredinol fodlon â’r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun gweithredu Archwilio Mewnol a chan yr ymrwymiad a ddangoswyd gan y ddau wasanaeth er mwyn cwblhau’r cynllun o fewn yr amserlen. Roedd wedi nodi bod materion diogelu a oedd yn codi yn cael eu monitro gan y Bwrdd Trefniadau Diogelu Corfforaethol ac roedd wedi nodi bod trefniadau o fewn Archwilio Mewnol er mwyn dilyn i fyny a monitro gweithredoedd rheoli mewn perthynas ag adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig ac i adrodd yn dilyn hynny i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini wedi penderfynu ymhellach y dylai gael diweddariad ar gynnydd yn ei gyfarfod Mehefin, 2018.

- Bod perfformiad y Cyngor mewn perthynas â gweithredu camau rheoli wedi gwella’n raddol dros y 13 mis diwethaf gyda chynnydd sylweddol wedi digwydd dros y chwe mis diwethaf. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o’r materion / risgiau sy’n weddill wedi dangos mai'r ffactor sy’n cyfrannu fwyaf at y gwelliant mewnl perfformiad yw’r estyniad i’r dyddiadau targed i weithredu Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu a’r Gorchmynion Llysoedd Plant o dan y materion / risgiau PLO. Mae hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod rheolwyr sydd wedi eu haseinio â rhoi gweithredoedd ar waith yn gallu ymestyn y dyddiad targed ar gyfer gweithredu heb unrhyw gyfeiriad at Archwilio Mewnol. Mae’r cyfleuster hwn bellach wedi’i dynnu’n ôl reolwyr ac mae’n rhaid i’r holl geisiadau i ymestyn dyddiadau gael eu cyflwyno i Archwilio Mewnol a fydd yn ystyried yr

DRAFT

amgylchiadau cyn cytuno ar estyniad. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith tymor byr ar y raddfa weithredu ac y bydd perfformiad yn gwaethygu yn y tymor byr.

- O ganlyniad i lithriant sylweddol ers 2016/17 a materion yn ymwneud â chapasiti, mae'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gallu cwblhau'r Cynllun Gweithredu 2017/18 wedi lleihau. O ganlyniad, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi ymgymryd ag asesiad risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. Mae adolygiadau Archwilio wedi eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu tuag at y meysydd lle mae'r risg uchaf. Mae'r Cynllun Blynyddol diwygiedig wedi'i gynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad. Hyd yma, mae 64% o'r cynllun diwygiedig wedi'i gwblhau gyda 23% yn waith ar y gweill ar hyn o bryd sy'n gwneud cyfanswm o 87%. Mae naw deg dau y cant o archwiliadau wedi eu cwblhau ar amser yn erbyn targed o 90%.
- Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor, y mae'n amser ei adolygu, i fod i gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2017. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor ohirio'r adolygiad tan y cyhoeddir yr arweiniad CIPFA newydd y rhagwelwyd y byddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd, 2017. Gohiriwyd hyn ymhellach tan Rhagfyr 2017. Mae'r arweiniad dal heb ei gyhoeddi ac er ei fod wedi'i gwblhau, mae CIPFA yn disgwyl ar y Swyddfa Gartref sy'n dod â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol newydd allan sy'n effeithio ar bwyllgorau archwilio yr heddlu. Disgwylir yr arweiniad newydd bellach ym Mawrth, 2018.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Mewn perthynas â GDPR, nododd y Pwyllgor nad yw ysgolion / penaethiaid wedi cael y wybodaeth ar gydymffurfiaeth GDPR. Nododd y Pwyllgor hefyd mai'r dyddiad sydd wedi'i nodi ar gyfer cydymffurfiaeth â GDPR yw Mai, 2018. Gan y gellir rhoi cosbau ar gyfer anghydffurfiaeth ac efallai na fydd ysgolion mewn sefyllfa i fod yn barod erbyn y dyddiad penodol, yn enwedig ysgolion cynradd llai, gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o'r risg i'r Cyngor ac am sicrwydd bod y mater yn derbyn sylw. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr ysgolion yn sefydliadau ar wahân a oedd yn ymddwyn fel cyrff annibynnol unigol o dan reoliadau newydd ac y bydd angen iddynt sefydlu eu cydymffurfiaeth eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi adnabod y mater hwn fel risg ac wedi rhyddhau adnodd ar gyfer cydymffurfiaeth GDPR o fewn ysgolion ac mae'r paratoadau ar y gweill. Bydd y mater hwn yn destun archwiliad mewnol ar wahân yn gynnar yn 2018/19.
- Nododd y Pwyllgor y 3 risg sylweddol a godwyd mewn perthynas ag adolygiad archwilio mewnol Tai Rhent o ran parodrwydd ar gyfer Credyd Cynhwysol. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod ymrwymiad ac amserlen i Reolwyr gwblhau'r gweithredoedd angenrheidiol er mwyn gallu mynd i'r afael â'r holl risgiau y tynnwyd sylw atynt gan nad oedd y rhain wedi eu nodi. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod cynllun gweithredu wedi'i gytuno arno gyda'r gwasanaeth. Gan fod y raddfa sicrwydd yn Rhesymol, bydd yr argymhellion ar gyfer gweithredoedd gan Reolwyr yn cael eu bwydo i system dracio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a bydd y gwasanaeth yn cael ei atgoffa bod angen darparu diweddariadau ar y cynnydd mewn perthynas â chyflawni'r gweithredoedd hynny.
- Nododd y Pwyllgor mai'r dyddiad sydd wedi'i drefnu ar gyfer cwblhau'r Cynllun Gweithredu Cludiant Ysgol yw mis Medi, 2018. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw'r gweithredoedd angenrheidiol yn gymhleth ac a ydynt angen y cyfnod hwn o amser i'w gweithredu. Holodd y Pwyllgor ymhellach a yw'r Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â'r mater o orwariant ar gludiant ysgol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod yr amserlen yn cael ei dylanwadu gan amseriad contractau cludiant ysgol; bydd y contractau presennol yn rhedeg tan ddiwedd y tymor ysgol. Bydd y broses tendro am gontractau yn dechrau cyn hir gyda chontractau newydd yn dod yn weithredol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi, 2018. Mae elfennau

diogelu bellach yn cael eu dilyn i fyny tra bo angen gwneud gwaith glanhau data cyn y gellir y gweithredu'r system meddalwedd Transort ONE yn llawn. Bydd gwneud hyn yn golygu y gellir mapio'r llwybrau ysgol gorau yn electronig gan olygu y bydd unrhyw ddyblygu llwybrau yn cael ei osgoi ac o ganlyniad y bydd y gwasanaeth cludiant ysgol yn fwy cost effeithiol. Mae yna bellach gytundeb ysgrifenedig rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Priffyrdd sy'n nodi'n glir eu dyletswyddau perthnasol. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi penodi Ymgynghorydd fel y Rheolwr Prosiect. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, fel Aelod o'r Panel Sgriwtini Cyllid, bod y panel wedi'i hysbysu gan y gwasanaethau Priffyrdd a Dysgu bod 100 o geisiadau newydd am gludiant o'r cartref i'r ysgol wedi eu derbyn. Fodd bynnag, roedd y panel yn dawel ei feddwl bod y Rheolwyr bellach yn ymdrin â'r mater hwn mewn modd mwy rhagweithiol ac y bydd y broses mapio llwybrau electronig yn fwy cadarn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

- Nododd y Pwyllgor, yng nghyd-destun dilyn i fyny'r Mynediad Rhesymegol a Rhannu Dyletswyddau bod diweddariad systemau ar y gweill a fydd yn arwain at fwy o eglurder ac atebolrwydd o ran rhannu dyletswyddau. Holodd y pwyllgor, o dan y system bresennol lle mae'r staff wedi bod yn cael eu cofnodi â llaw ar y system Gyflogres, a fu unrhyw risg i'r Cyngor gan fod y potensial ar gyfer anghysondebau yn uwch. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod rheoliadau eraill yn eu lle er mwyn gwirio cywirdeb y Gyflogres; byddai monitro'r gyllideb staffio hefyd yn tynnu sylw at unrhyw anghysondebau. Mae yna felly reoliadau yn ystod ac yn dilyn y broses daliadau sy'n lliniaru yn erbyn y risg o ddiffyg rhannu dyletswyddau sy'n bodoli o fewn y system Gyflogres ar hyn o bryd. Mae archwiliad Cyflogres wedi'i gynllunio ar gyfer 2018/19.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw'r Rheolwyr neu a ddylai Rheolwyr orfod adrodd yn ôl i'r adran Archwilio mewnol ar amgylchiadau a allai achosi oedi neu a allai effeithio ar gyflymder gweithrediad argymhellion er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y gellir ymestyn y dyddiadau targed ar gyfer gweithredu gyda chytundeb yr adran Archwilio Mewnol a fydd yn ystyried yr amgylchiadau.
- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas ag adolygiad dilyn i fyny cyntaf y Fframwaith Caffael Corfforaethol, mai un ffactor o ran methu â chwblhau dau o'r gweithredoedd/risgiau yw diffyg ymateb gan swyddogion perthnasol i gais am gyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â geiriad yr amodau a thelerau drafft. Nododd y Pwyllgor, er ei fod yn cydnabod graddfa'r gwaith yr oedd y diweddariad archwilio mewnol yn ei adlewyrchu yn gyffredinol, roedd yn siomedig fod oedi i'w weld fod oedi gyda chynnydd yn yr achos hwn oherwydd iffyg gweithredu gan swyddog er, roedd y Pwyllgor yn derbyn efallai bod materion nad oedd yn ymwybodol ohonynt. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn nodi pryder y Pwyllgor; cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n edrych ar hyn.
- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â darpariaeth y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18, bod rhai o'r eitemau wedi eu dileu; fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'r ffaith bod asesiad risg wedi'i gynnal gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a bod y Cynllun Archwilio diwygiedig yn seiliedig ar risg gan olygu ei fod yn cael ei yrru gan gydnabyddiaeth o'r meysydd lle mae'r mwyaf o risg i'r Cyngor.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor:**

- **Yn nodi cynnydd diweddaraf yr adran Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliannau ac yn gyffredinol, ei fod yn cymryd sicrwydd o'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiadau a chan ddiweddariadau'r swyddog yn y cyfarfod.**

- **Cymeradwyo gohirio adolygu ei gylch gorchwyl tan y bydd CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) yn cyhoeddi ei ddogfen arweiniol newydd.**

  **GWEITHRED YCHWANEGOL A GYNIGIR: Pennaeth Archwilio a Risg i ddilyn i fyny ymateb y Swyddog mewn cysylltiad â'r adolygiad dilyn i fyny cyntaf o'r Fframwaith Caffael Corfforaethol.**

## 4. RISGIAU, MATERION AC ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL SY'N WEDDILL

Adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n nodi'r holl argymhellion a risgiau sy'n weddill ac a godwyd ers Ebrill, 2014.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, ar 26 Ionawr, 2018, allan o gyfanswm o 745 o argymhellion/risgiau/materion oedd â dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu o 31 Rhagfyr, 2017 bod y Cyngor wedi gweithredu neu ddatrys 695 neu 93% gyda 50 ar ôl heb eu gweithredu / datrys. Y canran perfformiad ar gyfer mynd i'r afael â materion a oedd wedi'u graddio'n Uchel neu'n Goch / Ambr oedd 98%; ar gyfer materion a raddiwyd yn Ganolig a Melyn roedd yn 94% ac ar gyfer materion a raddiwyd yn Isel neu'n Wyrdd roedd yn 90%. Cafodd manylion y materion sy'n weddill ynghyd â dyddiad y codwyd pob mater ei nodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ac fe nododd fod nifer o faterion yn ymwneud â'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor a Budd-daliadau Tai 2016/17 yn parhau i fod yn weddill. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fod y Gwasanaeth Budd-daliadau Tai wedi mynd trwy broses o ailstrwythuro yn ystod 2017 a chanlyniad hynny oedd bod gan y gwasanaeth bellach gyflenwad llawn o staff; mae ganddo well trefniadau goruchwylio yn ogystal â gwell adborth ar faterion perfformiad staff. Ar yr un pryd, mae gwaith wedi bod yn parhau ar wella systemau, yn enwedig ar integreiddio ffurflenni hawlio budd-daliadau electronig i mewn i'r System Budd-daliadau; cafwyd peth oedi mewn perthynas â hyn oherwydd materion yn ymwneud â throsglwyddo data. Fodd bynnag, ar ôl ei weithredu fe ddisgwylir y bydd y newid hwn yn gwella cywirdeb y data a fewnbynnir. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar gyflwyno system reoli dogfennau electronig a fydd yn disodli'r system bresennol lle bydd ffurflenni hawlio budd-daliadau'n cael eu ffeilio â llaw gan olygu eu bod yn fwy tebygol o gael eu colli. Disgwylir y bydd y gwelliannau hyn yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion archwilio mewnol a godwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer gweithredu wedi ei basio oherwydd yn achos y system rheoli dogfennau yn electronig, mae'r feddalwedd hefyd yn un y bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn ei defnyddio i uwchraddio'r system gynllunio er bod y Gwasanaeth Cynllunio ar fersiwn wahanol - mae'r gwaith wedi cynnwys cymodi'r ddau er bod y Gwasanaeth Cynllunio ar fersiwn wahanol. Mewn perthynas â methu'r dyddiad targed, byddai'r broses wedi bod angen i'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau hysbysu'r adran Archwilio Mewnol o'r rhesymau dros weithrediad hwyr ac i ddod i gytundeb ar ddyddiad targed newydd.

Yn dilyn yr eglurhad a ddarparwyd gan y Swyddog uchod, fe'i nodwyd gan y Pwyllgor ac roedd yn fodlon â'r gwelliannau mewn perfformiad mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion archwilio mewnol yr oedd yr adroddiad yn eu hadlewyrchu a rhoddwyd sicrwydd pellach bod Archwilio Mewnol yn tracio'n systematig ac yn dilyn i fyny ar weithredoedd sydd i'w cymryd gan Reolwyr mewn ymateb i adroddiadau archwilio mewnol a bydd yn adrodd ar hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r risgiau archwilio mewnol sy'n weddill ac a godwyd ers 1 Ebrill, 2014.**

DRAFT

**NI CHAFODD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL EU CYNNIG**

## 5. ARCHWILIO ALLANOL - RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd diweddariad yr Archwilwyr Allanol ar y gwaith cyfredol a'r gwaith sydd wedi ei gynllunio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor. Darparodd yr adroddiad wybodaeth ar statws y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad yn 2016/17 a 2017/18 yn ogystal â rhaglen archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi statws y rhaglen waith perfformiad Archwilio Allanol fel y'i cyflwynwyd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 6. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN BLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol arfaethedig a'r Cynllun ar gyfer 2018/19 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn nodi bod angen i'r prif weithredwr archwilio sefydlu cynlluniau seiliedig ar risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgaredd archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r Cyngor. Wrth flaenoriaethu adnoddau, disgwylir i Archwilio Mewnol ymgymryd â gwaith digonol fel y gall y prif swyddog archwilio ddarparu barn archwilio mewnol flynyddol ar gyfer y Cyngor er mwyn hysbysu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn hanesyddol, mae Archwilio Mewnol wedi cynllunio ei waith ar sail strategaeth Cynllunio tair neu bum mlynedd. Fodd bynnag, amlygodd yr Asesiad Archwilio Ansawdd Allanol a gafodd ei gynnal ym Mawrth 2017, er bod y fethodoleg hon yn cydymffurfio â'r PSIAS, dylid ystyried a yw'r dull hwn yn effeithiol gan ystyried ei bod yn anodd rhagweld beth fydd yn bwysig i'r Cyngor ymhen tair blynedd. Nododd yr asesydd bod cyflymder newid mewn mewn llywodraeth leol yn awgrymu na ddylid ond cynllunio flwyddyn ymlaen llaw. Gan ystyried hyn, mae Archwilio mewnol wedi mabwysiadu agwedd newydd tuag at ddatblygu'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018/19 gan ddefnyddio'r gofrestr risg gorfforaethol er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau Archwilio Mewnol tra hefyd yn ystyried y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2017/18 i 2019/20. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd â Swyddfa Archwilio Cymru, y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r rhan fwyaf o Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ceisio eu safbwyntiau ar y meysydd arfaethedig ar gyfer eu hadolygu. Canlyniad hyn yw cynllun â llawer mwy o ffocws, mwy perthnasol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer 2018/19. Mae'r cynllun hefyd yn gynllun deinamig a bydd yn cael ei adolygu a'i addasu yn ôl yr angen mewn ymateb i newidiadau yn rhaglenni, gweithrediadau a risgiau'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol. Bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau.

Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod strwythur y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn eithaf cul ac nad oes unrhyw gapasiti sbâr yn bodoli. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd felly bod y gwasanaeth yn hyderus fod ganddo'r adnoddau staffio er mwyn gallu darparu'r Cynllun Archwilio ar amser. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd yr ymagwedd newydd tuag at archwilio a'r ffordd fwy cryno o adrodd yn lleihau llawer iawn o'r baich

gweinyddol a nifer y dyddiau a dreulir yn anghynhyrchiol. Hyd yn oed os nad yw'r adolygiadau archwilio a gynhelir yn rhai manwl byddant yn ddigonol er mwyn adnabod unrhyw risgiau/materion sylweddol neu faterol yn y maes sy'n cael ei archwilio; gall Archwilio Mewnol wedyn benderfynu a oes angen ymchwilio ymhellach i'r materion a godwyd ellach a gellir un ai ail drefnu'r archwiliad / addasu'r cynllun gwaith er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o'r broses lle gall y Pwyllgor sicrhau bod camau cywiro amserol yn cael eu cymryd gan Reolwyr mewn ymateb i faterion a godwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y gall y Pwyllgor Archwilio a Risg ofyn i Bennaeth Gwasanaeth fynychu'r cyfarfod er mwyn egluro cydymffurfiaeth neu fel arall; mae Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol, drwy'r system dracio fewnol, o'r argymhellion sydd wedi eu gweithredu gan eu rheolwyr. Yn ychwanegol at hynny, mae newid diwylliant o'r top i lawr yn golygu bod trosolwg a chraffu meysydd lle mae materion/ gweithredoedd yn weddill bellach yn digwydd yn fwy penodol ac fel rhan o'r gwaith arferol ac o'r herwydd, gwelwyd gwelliant sylweddol wrth weithredu argymhellion sy'n weddill a mynd i'r afael â materion / risgiau fel yr adroddwyd arnynt yn flaenorol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai un o elfennau'r adolygiadau herio gwasanaeth eleni oedd gweithrediad yr argymhellion Archwilio Mewnol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2018/19 ac i nodi'r ymagwedd archwilio newydd tuag at gynllunio archwilio.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**7. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yn cynnwys y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2018/19, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi agwedd arfaethedig y Cyngor tuag at fuddsoddiadau a threfniadau benthyca presennol a'r rhai a ragwelir ar gyfer 2018/19.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn y sefyllfa economaidd a gan fod y rhagolygon yn parhau i fod yn ansicr, bydd agwedd Rheoli Trysorlys y Cyngor yn parhau i fod yn seiliedig ar y canlynol -

- Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy na'r hyn sydd ei angen arno er mwyn ceisio elwa o fuddsoddiad ar y symiau ychwanegol a fenthycir gan fod yr elw ar y buddsoddiadau yn debygol o fod yn is na'r gost o fenthyca.
- Bydd y Cyngor yn cynnal ymagwedd hyblyg tuag at fenthyca mewnol ac allanol gan roi ystyriaeth i'r ffactorau a ddisgrifir yn adran 3.3.1 o'r strategaeth. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn tan-fenthyca sy'n golygu nad yw'r angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf) wedi ei ariannu'n llawn â dyled benthyciadau gan fod arian parod sy'n cefnogi arian wrth gefn y Cyngor, balansau a llif arian wedi ei ddefnyddio yn lle hynny. Mae hon yn ymagwedd synhwyrol gan fod adenillion ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrth-barti yn fater sy'n parhau fod angen sylw. Bydd y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (y rhagolygon o'r angen i fenthyca er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf) ar ddiwedd y flwyddyn yn £138.1m gan olygu y bydd y Cyngor yn benthyca'n fewnol (defnyddio arian wrth gefn y Cyngor a'r balansau er mwyn helpu i ariannu'r rhaglen gyfalaf) £20.1M erbyn diwedd y flwyddyn.
- Rhoddir ystyriaeth i ail-drefnu dyledion yn ogystal â'r potensial i wneud arbedion drwy redeg buddsoddiadau i lawr er mwyn talu dyledion yn gynnar. Yn ychwanegol at hynny,

ble bo hynny'n bosibl, bydd y Cyngor yn osgoi benthyca newydd i ddisodli dyledion allanol sy'n aeddfedu a bydd yn defnyddio balansau ariannol yn lle hynny.

- Bydd blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yn parhau i roi diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac yna elw. Bydd y Cyngor yn buddsoddi â gwrthbartion yn unol â'r polisi credyd a nodir yn adran 4.2 o'r strategaeth.
- O ran diweddariadau i'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys, yr unig ddiwygiad arfaethedig i'r egwyddorion craidd a'r polisïau o Ddatganiad 2017/18 yw i ddiwygio'r Polisi Isafswm Arian wrth Gefn (MRP) er mwyn i'r gost MRP yn y dyfodol fod yn gyson ar gyfer benthyca â chymorth a benthyca heb gymorth ac mae'n seiliedig ar fywyd economaidd defnyddiol yr ased.
- Dim ond un newid arfaethedig sydd i Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod sef cynyddu isafswm y balansau arian parod o £6m i £6.5m

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor yr amrywiad rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a oedd modd i'r Cyngor osod y swm y mae'n ei fenthyca yn erbyn yn swm mae wedi'i fuddsoddi er mwyn lleihau'r cyfalaf a fenthycwyd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod mwyafrif y benthyciadau y bydd y Cyngor yn eu cymryd yn rhai ar gyfer symiau sefydlog, dros gyfnod sefydlog o amser gyda chyfradd llog sefydlog sy'n ei alluogi i gynllunio ar gyfer y tymor hir ac sy'n rhoi sicrwydd yn erbyn anwadalwch. O ganlyniad i'r cyfraddau llog isel presennol, yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ffafrio yw sicrhau cyfraddau llog isel er lles y Cyngor.
- Gofynodd y Pwyllgor am gadarnhad o ran ba bwynt yr ystyrir y bydd yn ymarferol i'r Cyngor gynyddu benthyca. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ei fod yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y swm sydd wedi'i fenthyca a'r adenillion ar y buddsoddiad. Mae ffactorau eraill a gymerir i ystyriaeth yn cynnwys y balansau arian parod sydd gan y Cyngor ar unrhyw adeg benodol sy'n dylanwadu ar amseriad y benthyca. Tra bo'n rhaid i'r Cyngor sicrhau fod ganddo ddigon o arian parod i fodloni gwahano ofynion, nid yw'n dymuno cael gormodedd o arian parod heb unrhyw le i'w fuddsoddi.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw'r Cyngor yn ystyried y ffactor Disgownt Llif Arian wrth ymgymryd â phrosiectau h.y. y syniad bod swm o arian sydd i'w dalu yn y dyfodol yn werth llai heddiw na phetai'r un swm o arian yn cael ei dalu heddiw. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y byddai'r cyfrifiad yn cael ei wneud ar gyfer unrhyw brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy fenthyciadau di-gefnogaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried y cyfrifiad MRP gan fod y gost MRP yn effeithio ar y gyllideb refeniw.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad**
- **Cadarnhau'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys) [Atodiad A] ar gyfer 2018/19.**
- **I anfon y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 ymlaen at y Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach.**
- **Cymeradwyo'r newidiadau yn y Cynllun Rheoli Trysorlys, cynyddu'r isafswm balansau arian parod o £6m i £6.5m er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y balans arian wrth gefn cyffredinol.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

DRAFT

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Rhagfyr, 2018 ar gyfer ystyriaeth a'i adolygu.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Blaen Raglen Waith heb unrhyw newidiadau.**

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.

## 10. COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, a oedd yn cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel y'i hadolygwyd a'i diweddarwyd hyd at ddiwedd Chwarter 2 2017/18 gan yr Uwch Dîm Rheoli, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Rheolwr Yswiriant a Risg fod y sefyllfa fel a ganlyn ar ddiwedd Chwarter 2 –

- Nid oes unrhyw risgiau wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ers iddi gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym Medi, 2017.
- Ni chafwyd unrhyw newid yn lefel risg weddillol unrhyw risg gyfredol ers cyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor diwethaf.
- Mae pedair risg gorfforaethol newydd wedi eu hadnabod yn ystod Chwarter 2. Mae manylion y rhain ar gael yn adran 5 yr adroddiad.
- Mae'r risgiau uchaf (Coch) i'r Cyngor wedi eu nodi fel y rhai hynny a restrir yn adran 6 yr adroddiad.

Hysbysodd y Swyddog y Pwyllgor fod yr Uwch Dîm Rheoli wedi adolygu sefyllfa Chwarter 3 2017/18 yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2018 a bod y canlyniad fel a ganlyn -

- Ni ychwanegwyd unrhyw risgiau newydd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Ni chafodd unrhyw risgiau eu tynnu oddi ar y Gofrestr
- Cafodd lefel pedair risg ei gostwng. Mae un o'r risgiau hynny (YM22) yn parhau i fod yn Ambr tra bo'r tair arall (YM29, YM33 a YM40) wedi eu gostwng o Ambr i Felyn. Mae lefel y risg weddilliol o ran y tebygolrwydd y bydd yn digwydd wedi lleihau mewn perthynas â'r pedair risg.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd. Gofynodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr ymagwedd tuag at reoli risg YM43 (yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant) yn parhau'n ddigon cadarn. Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau bod y gweithredoedd lliniaru a'r trefniadau adrodd a monitro mewn perthynas â'r risgiau sydd wedi'u hadnabod yn y maes gwasanaeth hwn yn gadarn ac yn parhau.

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad ac i nodi hefyd bod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu hadnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**



DRAFT

**Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **26 Ebrill 2018 / 15 Mai 2018** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2017/18 – Adroddiad y Cadeirydd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**<br>**01248 752601**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur yr Adroddiad a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu baratoi adroddiad i'r Cyngor ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r adroddiad sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r gofyn hwn. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2017/18.

## 2. Argymhelliad

2.1. Fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2017/18 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar 15 Mai 2018.

## 3. Gwybodaeth Gefndir

3.1. Mae Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n un o bwyllgorau statudol y Cyngor. Mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.

3.2. Mae'r Pwyllgor yn darparu sicrwydd annibynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol, ac uniondeb y drefn adrodd ariannol. Drwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

## 4. Llywodraethu

4.1. Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol Cymru'n cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol a llywodraethu gyda'i Ddatganiad Cyfrifon blynyddol.

4.2. Yn dilyn ymgynghori eang, cynhyrchodd y Cyngor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac adolygiad o brosesau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Roedd Datganiad 2016/17 yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (*Framework for Delivering Good Governance in Local Government*).

4.3. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon 2016/17 drafft cyn eu hadolygu gan Archwilwyr Allanol yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2017. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017 cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17 a chyfeiriwyd y ddogfen i sylw Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, yn unol â'r gofyn statudol.

4.4. Mae dogfennau llywodraethu eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth ac Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Bryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban ar gyfer 2016/17 a adroddwyd i'r cyfarfod ar 21 Medi 2017.

## 5. Rheoli Risg

5.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n gosod dyletswydd arno i wireddu'r gofynion hyn.

5.2. O 1 Ebrill 2017, trosglwyddodd rheolaeth llinell y Rheolwr Risg i'r Pennaeth Archwilio a Risg. Gyda'i gilydd fe wnaethant adolygu agwedd y Cyngor tuag at reoli risg, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiad ar y canlyniadau yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2017, ynghyd â Pholisi a Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor.

5.3. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi datblygiad y fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ystyriwyd risgiau corfforaethol y Cyngor ar 21 Medi 2017 ac 13 Chwefror 2018.

## 6. Cyfrifon Ariannol

6.1. Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer eu harchwilio ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2017.

6.2. Ar 21 Medi 2017, adroddodd y Prif Gorff Ymgysylltiad ar gyfer Archwilio Ariannol (Deloitte) ei fwriad i roi barn diamod ar y datganiadau cyfrifon yn unol â'r amserlen

statudol, yn amodol ar gwblhau’r tri mater sydd wedi’u nodi yn yr adroddiad hwn a derbyn Llythyr Sylwadau’r Cyngor.

6.3. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor argymell i’r Cyngor Llawn y dylid derbyn Datganiad Cyfrifon 2016/17.

## 7. Rheoli Trysorlys

7.1. Yn unol â’i gylch gorchwyl a Chôd Ymarfer a Chylch Gorchwyl CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2011), ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2016/17 ar 25 Gorffennaf 2017.

7.2. Bu i’r Pwyllgor graffu ar Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2017/18 ar 13 Chwefror 2018. Cyfeiriodd y Pwyllgor y ddwy ddogfen i’r Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau ychwanegol.

7.3. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad canol blwyddyn Rheoli Trysorlys yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2017 er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau.

7.4. Fel rhan o’r broses o graffu ar yr adroddiadau uchod, adolygodd y Pwyllgor lefel y risg y mae’r Cyngor yn agored iddi a’i allu i reoli risg mewn perthynas â’i weithgareddau Rheoli Trysorlys.

## 8. Archwilio Mewnol

8.1. Penododd y Cyngor Bennaeth Archwilio a Risg newydd a ddechreuodd yn ei swydd ar 1 Ebrill 2017 yn dilyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth blaenorol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o 1 Awst 2015.

8.2. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2016/17 gan y cyn Rheolwr Archwilio yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2017. Penderfynodd y Pwyllgor, yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac o fewn y ddogfennaeth, bod y pwyllgor â sicrwydd am y 12 mis yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017, bod gan y Cyngor brosesau rheolaeth fewnol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol digonol yn eu lle er mwyn rheoli a chefnogi cyrhaeddiad ei amcanion.

8.3. Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2017, derbyniodd y Pwyllgor ganlyniadau Asesiad Ansawdd Allanol y gwasanaeth archwilio mewnol, fel rhan o’i rwymedigaethau o dan Safonau Archwilio mewnol y Sector Cyhoeddus, lle mae’n rhaid cynnal asesiad allanol bob pum mlynedd. Nododd y Pwyllgor bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn ‘*Cydymffurfio’n Gyffredinol’* â’r Safonau a nododd hefyd Gynllun Gweithredu’r Pennaeth Archwilio a Risg er mwyn mynd i’r afael â’r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella.

8.4. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017. Roedd yn cynnwys y warchodaeth i gyfyngu amhariadau ar annibyniaeth neu wrthrychedd a allai godi o ganlyniad i’r prif weithredwr archwilio yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio sef yn benodol y cyfrifoldeb am reoli risg ac yswiriant.

8.5. Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Strategaeth Archwilio Mewnol a'i Gynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2018, gan nodi'r ymagwedd archwilio newydd tuag at gynllunio archwilio.

8.6. Drwy gydol y flwyddyn, adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar ganlyniadau i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor fel rhan o'r adroddiad diweddariad archwilio mewnol. Roedd adroddiadau cynnydd hefyd yn cynnwys cynnydd gwasanaethau wrth weithredu argymhellion archwilio mewnol a mynd i'r afael â Materion/Risgiau.

## 9. Archwilio Allanol

9.1. Archwiliwr Cyffredinol Cymru yw archwiliwr allanol statudol y Cyngor. Mae rôl yr Archwiliwr Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae'r Cyngor yn rheoli a gwario arian cyhoeddus, yn cynnwys sut mae'n cyflawni gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a pha mor dda mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella.

9.2. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â'r Gwaith Perfformiad. Adroddodd yr Arweinydd Perfformiad, yn y cyfarfod ar 28 Mehefin 2017, ar y gwaith mewn perfformiad mewn perthynas â'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol 2016/17 yn cynnwys crynodeb o adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr eraill, sef AGGCC, Estyn a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Adroddodd yr Arweinydd Perfformiad bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017/18.

9.3. Mae Deloitte, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â gwaith archwilio ariannol. Yn y cyfarfod ar 21 Medi 2017 adroddodd ar ei fwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2016/17.

9.4. Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Allanol Blynyddol ar gyfer 2016/17, ynghyd â'r rhybudd o ardystiad o gwblhau'r archwiliad o gyfrifon 2016/17 i gyfarfod 5 Rhagfyr 2017 er gwybodaeth.

9.5. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried adroddiadau diweddaru rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Deloitte. Mae hon yn agwedd bwysig ar fusnes y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl adroddiadau allanol, un ai yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod yn y camau priodol yn cael eu cymryd.

## 10. Gwrthsefyll Twyll a Llygredd

10.1. Ni dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw adroddiadau ar dwyll a llygredd yn ystod 2017/18.

## 11. Amlder Cyfarfodydd

11.1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 6 achlysur.

11.2. Ceir gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2017/18 yn Atodiad A.

## 12. Aelodaeth

12.1. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth o aelodau'r Cyngor, gyda chydbwysedd gwleidyddol, ynghyd â dim mwy na dau Aelod Lleyg wedi eu cyfethol a'u penodi gan y Pwyllgor.

12.2. Daeth cyfnod y ddau Aelod Lleyg cyfetholedig i ben ddiwedd Mai 2017. Penododd y Pwyllgor ddau Aelod Lleyg newydd, yn dilyn proses allanol, ac fe wnaethant ddechrau yn eu rolau ym Mehefin 2017.

12.3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 31 Mai 2017, etholwyd y Cynghorydd Peter S Rogers yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Robert Llewelyn Jones yn Is-Gadeirydd.

## 13. Cylch Gorchwyl

13.1. Fe ddylai'r Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau priodoldeb. Adolygodd a chymeradwyodd y cylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Chwefror 2015 a rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a'r Cyngor Sir ym Mai 2015.

13.2. Yn unol â Blaen Raglen Waith y Pwyllgor, roedd y cylch gorchwyl i fod i gael ei gyflwyno i gyfarfod Medi 2017 y Pwyllgor. Fodd bynnag, o ganlyniad i oedi wrth gyhoeddi canllawiau CIPFA, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r adolygiad tan y cyhoeddir y canllawiau wedi'u diweddaru.

13.3. Rhagwelir y cyhoeddir y canllawiau newydd yn ystod Ebrill 2018.

13.4. Yn dilyn hynny, bydd adolygiad o'i gyfrifoldebau, yn enwedig ei gylch gorchwyl, yn cael gynnal.

## 14. Effeithiolrwydd

14.1. Mae'r Pwyllgor wedi gweithio yn unol â'i gylch gorchwyl, sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ran monitro rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol o fewn y Cyngor.

14.2. Mae camau gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor a manylion eu datrysiad yn Atodiad B.

14.3. Manylir ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19 yn Atodiad C. Gallai hyn newid o ganlyniad i adolygu'r Cylch Gorchwyl yn ystod 2018/19.

## 15. Sylwadau’r Cadeirydd

15.1. Dymuna’r Cadeirydd fynegi ei ddiolch i Aelodau’r Pwyllgor am eu presenoldeb a’u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i’r ddau Aelod Llyg cyfetholedig y daeth eu cyfnod i ben yn ystod y flwyddyn, am eu gwaith yn ystod tymor y Pwyllgor blaenorol.

15.2. Hoffai’r Cadeirydd hefyd fynegi ei ddiolch i’r gweithwyr hynny o fewn y Cyngor sydd wedi mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd ac, yn benodol, mae hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol am eu cymorth parod.

15.3. Mae’r Cadeirydd yn manteisio ar y cyfle hwn i atgoffa’r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, sydd hyd yn oed yn fwy perthnasol yn y sefyllfa economaidd bresennol o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg mewn modd effeithiol a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

15.4. Mae’r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda staff y Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yng ngweithrediadau’r Cyngor yn 2017/18.

**Y CYNGHORYDD PETER S ROGERS**
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**
**24 EBRILL 2017**

# Atodiad A – Amlder Cyfarfodydd a Phresenoldeb

| Aelodau | Cyfarfodydd | | | | | | | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 27/04/17 | 31/05/17 | 28/06/17 | 25/07/17 | 21/09/17 | 05/12/17 | 13/02/18 | |
| **Cyng Peter Rogers (Cadeirydd)** | Canslo | Presennol | Presennol | Ddim yn bresennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyng R.Ll.Jones (Is-Gadeirydd)** | Canslo | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ddim yn bresennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyng Richard Griffiths** | Canslo | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **6 / 6** |
| **Cyng G O Jones** | Canslo | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ddim yn bresennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyng Dylan Rees** | Canslo | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyng Alun Roberts** | Canslo | Presennol | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyng Margaret Roberts** | Canslo | Ddim yn Bresennol | Presennol | Presennol | Ddim yn bresennol | Presennol | Presennol | **4 / 6** |
| **Cyng Robin Williams** | Canslo | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Mrs Sharon Warnes (Aelod Lleyg)** | Canslo | Presennol | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | **1 / 1** |
| **Mr Richard Barker (Aelod Lleyg)** | Canslo | Ymddiheuro | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | **0 / 1** |
| **Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)** | Amh | Amh | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 5** |
| **Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg)** | Amh | Amh | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 5** |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor** | **0** | **8** | **9** | **9** | **8** | **8** | **9** | |

## Atodiad B – Cynnydd mewn perthynas â’r Camau Gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor yn 2017/18

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28/06/17 | 6 | Dau Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas â’r Uned Cynnal a Chadw Tai yng Ngaerwen | Pennaeth Archwilio a Risg i ofyn i’r Pennaeth Gwasanaethau Tai fynychu’r Pwyllgor nesaf ym mis Gorffennaf er mwyn egluro ymateb y Gwasanaeth i’r materion a godwyd. | Pennaeth Archwilio a Risg / Pennaeth Gwasanaethau Tai | Gorffennaf 2017 | Mynychodd Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai a Rheolwr Cyffredinol yr Uned Reoli Tai y cyfarfod 25 Gorffennaf 2017 er mwyn egluro’r gwaith sydd wedi’i wneud ac er mwyn delio â’r materion a godwyd. | |
| 28/06/17 | 6 | Argymhellion Archwilio Mewnol sy’n Weddill | Pennaeth Archwilio a Risg i ddarparu cyfarfod mis Medi y Pwyllgor â rhestr o’r holl argymhellion archwilio mewnol sy’n weddill. | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2017 | Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg restr i’r Pwyllgor o’r holl argymhellion archwilio mewnol sy’n weddill yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017. | |
| 28/06/17 | 6 | Adroddiadau Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig ac Isel. | Pennaeth Archwilio a Risg i gyflwyno rhestr o’r adolygiadau Sicrwydd | Pennaeth Archwilio a Risg | Parhaus | Mae adolygiadau Sicrwydd Cyfyngedig neu Isel wedi eu | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfyngedig ac Isel fel a phan y byddant yn codi. | | | cyflwyno i Aelodau wrth iddynt godi. | |
| 28/06/17 | 10 | Diweddariadau Blaen Raglen Waith | Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Blaen Raglen Waith yn unol â'r trafodaethau yn ystod y cyfarfod. | Pennaeth Archwilio a Risg | Parhaus | Mae'r Blaen Raglen Waith yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen ar ddiwedd pob cyfarfod. | |
| 25/07/17 | 3 | Cynllun Darparu Archwilio Mewnol | Pennaeth Archwilio Mewnol i ddiwygio'r golofn 'Ar y trywydd iawn' yn y tabl i ddangos cynnydd y ddarpariaeth yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol er mwyn dynodi i'r Pwyllgor Archwilio pa adolygiad sy'n ddisgwyliedig/yn debygol o gael ei adrodd arno. | Pennaeth Archwilio a Risg | Ar unwaith | Gweithred wedi'i disodli. Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol Llawn wedi'i gyflwyno i bob cyfarfod, gyda dyddiad disgwyliedig o ba Bwyllgor Archwilio yr adroddir canlyniad yr adolygiad iddo. Mesur perfformiad mewnol hefyd wedi'i sefydlu. | |
| 21/09/17 | 3 | Bygythiadau gan weithgareddau hacio maleisus | Gwasanaeth TGCh o adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar weithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â delio â'r bygythiad gan | Pennaeth TGCh | Rhagfyr 2017 | Adroddodd Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh ar weithdrefnau'r Cyngor tuag at ddelio â | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | weithgareddau hacio maleisus. | | | gweithgareddau hacio maleisus a mathau eraill o droseddau seibr yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2017. | |
| 21/09/17 | 6 | Archwiliad Mewnol o Drefniadau Cludiant Ysgol | Yr adroddiad Archwilio mewnol mewn perthynas â Chludiant Ysgol i gael ei gyfeirio at Sgriwtini ar gyfer ei graffu gydag argymhelliad y dylid ffurfio Cynllun Gweithredu ac y dylid monitro a goruchwylio'r cynllun gan dîm prosiect. Y Pwyllgor Archwilio i gael ei hysbysu o ganlyniad gwaith y Pwyllgor Sgriwtini yn sgil craffu'r adroddiad. | Gweinyddiaeth y Pwyllgor | Ar unwaith | Ystyriodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y mater hwn yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2018. Roedd yn fodlon ar y cyfan â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol a chan yr ymrwymiad a ddangoswyd gan y ddau wasanaeth i gwblhau'r cynllun o fewn yr amserlen. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi penderfynu ymhellach gofyn am ddiweddariadau yn ei | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gyfarfod ym Mehefin 2018. | |
| 21/09/17 | 6 | Dyddiadau darparu adroddiadau adolygu unigol yn y Cynllun Archwilio Mewnol. | Gwneud darpariaeth yn y Cynllun Archwilio Mewnol i'w dynodi | Pennaeth Archwilio a Risg | Ar unwaith | Fel yr uchod – dyddiad bellach wedi'i gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol. | |
| 05/12/17 | 3 | Mynediad Aelodau i adroddiadau archwilio mewnol | Y Cadeirydd, Aelod Portffolio Cyllid a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i gyfarfod â'r ddau Aelod Lleyg ar y Pwyllgor i ystyried y ffordd orau iddynt allu cael mynediad i'r amrywiaeth o adroddiadau Archwilio Mewnol er mwyn cefnogi eu rôl ar y Pwyllgor. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Ar Unwaith | Cynhaliwyd cyfarfod ar 7 Chwefror 2018 rhwng y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, y Pennaeth Archwilio a Risg, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac un o'r Aelodau Lleyg er mwyn trafod y ffordd ymlaen o ran darparu adroddiadau archwilio mewnol ar gyfer aelodau. Cytunwyd i ddarparu mwy o fanylion yn y | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Diweddariad Archwilio mewnol ac i barhau i ddarparu copïau llawn o adolygiadau archwilio mewnol o'r adolygiadau â Sicrwydd Cyfyngedig ac Isel. | |
| 05/12/17 | 3 | Fframwaith Caffael Corfforaethol – Adolygiad Dilynol cyntaf | Pennaeth Archwilio a Risg i ddilyn i fyny ar ymateb y Swyddog mewn cysylltiad â'r adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf y Fframwaith Caffael Corfforaethol. | Pennaeth archwilio a Risg | Ebrill 2018 | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn diweddaru'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2018. | |

## Atodiad C – Blaen Raglen Waith 2018/19

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2018 | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | | | | Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor – Adroddiad y Cadeirydd |
| Mehefin 2018 | Datganiad Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18 | Adroddiad Cynnydd | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Gorffennaf 2018 | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys 2017/18 | | | |
| Medi 2018 | Argymell ar gyfer eu cadarnhau gan y Cyngor y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad | Adroddiad Diweddaru<br><br>Argymhellion Archwilio | Derbyn Adroddiad ar Gyfrifon y rhai hynny sy'n gyfrifol am | | Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg | Cynnydd wedi'i wneud ar Adroddiadau Rheoliadol Allanol | |

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llywodraethu Blynyddol | Mewnol sy'n Weddill | Lywodraethu (ISA 260) | | Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | | |
| Rhagfyr 2018 | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Craffu'r Adroddiad Canol Blwyddyn ar weithgaredd Rheoli Trysorlys 2018/19 | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol | Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a Llygredd<br><br>Adolygiad Blynyddol o Effeithlonrwydd a Threfniadau Atal Twyll y Pwyllgor Archwilio |
| Chwefror 2019 | | Strategaeth Archwilio mewnol a Chynllun Blynyddol 2019/20 ar gyfer eu cymeradwyo<br><br>Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20 yn cynnwys Dangosyddion Cynghorus | Cofrestr Risg Corfforaethol | Cynnydd wedi'i wneud ar Adroddiadau Rheoliadol Allanol | |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – **Cyngor Sir Ynys Môn**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 321A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Y Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio

Y ddogfen hon 4

Y wybodaeth ddiweddaraf am waith archwilio ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 – Cyngor Sir Ynys Môn 5

Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn 7

Gwaith arolygu arall 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn 11

# Y ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) am waith cyfredol ac arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n cwmpasu gwaith archwilio ariannol a pherfformiad ynghyd â gwybodaeth am raglen yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau gwerth am arian.

# Y wybodaeth ddiweddaraf am waith archwilio ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn

2 Mae Arddangosyn 1 yn rhoi trosolwg byr i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r gwaith archwilio ariannol a adroddwyd i'r cyngor. Mae cynnydd yn erbyn yr allbynnau a cherrig milltir allweddol arfaethedig o allbynnau a cherrig milltir archwilio ariannol, fel y nodir yn yr amlinelliad drafft, wedi'i grynhoi yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: cyflawni gwaith archwilio ariannol 2016-17

| Allbwn arfaethedig | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Dyddiad adrodd arfaethedig | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|---|
| **Dogfen ar yr hyn i'w gyflawni mewn Archwiliad** | Mis Chwefror 2017 | Mis Mawrth 2017 | Mis Mawrth 2017 |
| **Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol** | Mis Mehefin 2017 | Mis Medi 2017 | Mis Medi 2017 |
| **Barn ar y Datganiadau Ariannol** | Mis Mehefin 2017 | Mis Medi 2017 | Mis Medi 2017 |
| **Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan** | Mis Gorffennaf 2017 | Mis Medi 2017 | Mis Medi 2017 |
| **Memorandwm Cyfrifon Ariannol** | Mis Medi 2017 | Mis Hydref 2017 | Mis Hydref 2017 |
| **Adroddiad Archwilio Blynyddol** | Mis Hydref 2016 | Mis Tachwedd 2017 | Mis Tachwedd 2017 |

# Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 – Cyngor Sir Ynys Môn

Arddangosyn 2: gwaith archwilio perfformiad 2016-17 – Cyngor Sir Ynys Môn

| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio** | Cynllun gwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2016-17. | Cwblhawyd – Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Mawrth 2016. |
| **Archwiliad o'r Cynllun Gwella** | Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi cynllun gwella. | Cwblhawyd – Adolygiad wedi'i gwblhau. Cyhoeddwyd tystysgrif. |
| **Asesiad o berfformiad** | Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Cwblhawyd – gweler uchod. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol** | Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Cyngor. | Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. |
| **Astudiaeth Thematig: Cydnerthedd Ariannol** | Ffocws: Cynlluniau Arbedion. | Cyhoeddwyd adroddiad lleol ym mis Chwefror 2017. |
| **Astudiaeth Thematig: Llywodraethu** | Ffocws: Llywodraethu newidiadau sylweddol i wasanaethau. | Cyflwynwyd adroddiad lleol ym mis Mehefin 2017. |
| **Astudiaeth Thematig: Trawsnewid** | Casglu barn swyddogion ynglŷn â materion allweddol o ran delio â newid/trawsnewid. | Prosiect wedi'i gwblhau. Adborth i'r Prif Weithredwr yn ystod gwanwyn 2018. |

| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
|---|---|---|
| **Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Gwella llesiant drwy addasiadau i dai** | Cwblhawyd y gwaith maes. | Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 |
| **Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Trefniadau awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau anableddau dysgu yn strategol** | Cwblhawyd y gwaith maes. | Cyhoeddi yn ystod gaeaf 2018. |
| **Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw – Gwasanaethau digartrefedd** | Cwblhawyd y gwaith maes. | Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018. |

# Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn



| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio** | Cynllun gwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2017-18. | Lluniwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2017. |
| **Archwiliad o'r Cynllun Gwella** | Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi cynllun gwella. | Cwblhawyd – Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Ebrill 2017. |
| **Asesiad o berfformiad** | Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Cwblhawyd – Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Tachwedd 2017. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol** | Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Cyngor. | I'w gyhoeddi yn ystod haf 2018. |
| **Astudiaeth Thematig: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Asesiad sylfaenol** | Sylwebaeth Blwyddyn Un: bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn casglu tystiolaeth ynghylch sut mae'r 44 o gyrff yn dechrau ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn nodi enghreifftiau o arfer nodedig sy'n dod i'r amlwg. Caiff y gwaith ei lunio i gefnogi gwelliant a llywio gwaith archwilio yn y dyfodol o dan y Ddeddf. | Cwblhawyd y gwaith maes. Adroddiad cryno cenedlaethol yn ystod gwanwyn 2018. |
| **Astudiaeth Thematig: Craffu – Addas i'r Dyfodol** | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith pwyllgorau craffu. | I ddigwydd drwy gydol blwyddyn archwilio 2017-18. Cyhoeddwyd Briff y Prosiect. Caiff y gwaith maes ei gwblhau ym mis Ionawr 2018. |

| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
|---|---|---|
| **Astudiaeth Thematig: Adolygiad o ddefnyddwyr gwasanaethau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).** | Bydd y prosiect hwn yn profi'r rhyngwyneb defnyddiwr gwasanaeth ym mhob awdurdod. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso sut deimlad ydyw (fel aelod o'r cyhoedd) i ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor, gan gynnwys detholiad o wasanaethau a senarios. Ar ben hynny, diben y trosolwg lleol hwn yw penderfynu p'un a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith er mwyn ei alluogi i barhau i gyrraedd SATC. | I ddigwydd drwy gydol blwyddyn archwilio 2017-18. Cwblhawyd y gwaith maes. Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2018. |
| **Gwaith Lleol: Parodrwydd Wylfa Newydd a'i effaith ar Allu Corfforaethol.** | Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar allu a pharodrwydd y Cyngor i gefnogi prosiect Wylfa Newydd yng nghyd-destun y Rhaglen Ynys Ynni ac amcanion strategol ehangach y Cyngor. Bydd yr adolygiad yn cydnabod cynnydd ac elfennau arfer nodedig, ond gall hefyd dynnu sylw at feysydd risg nad yw'r Cyngor wedi'u hystyried eto a/neu lle gall cymorth allanol ychwanegu gwerth drwy wella cydnerthedd y Cyngor. | Cwblhawyd y gwaith maes. Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2018. |
| **Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Cronfa Gofal Integredig** | Cafodd y Gronfa Gofal Canolraddol ei hailenwi'n Gronfa Gofal Integredig yn ddiweddar. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Gofal Integredig ar lefel genedlaethol a lleol drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol. | Briff y Prosiect i'w gyhoeddi. |

| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
|---|---|---|
| **Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Defnyddio data'n effeithiol** | Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl awdurdodau lleol o ran pa mor effeithiol ydynt wrth reoli a defnyddio data. Bydd hefyd yn ystyried pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn asesu ac yn defnyddio data a ddelir gan bartneriaid. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cynghorau ar gamau gwahanol iawn o ran sut maent yn defnyddio data. Felly, bydd yr archwiliad hwn yn asesu pob awdurdod lleol ar ei berfformiad gan nodi pa mor dda y mae awdurdodau'n perfformio wrth gasglu data, dadansoddi data a defnyddio data i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau a defnyddio adnoddau. | Cyhoeddwyd Briff y Prosiect – mis Mehefin 2017. Arolwg wedi'i gyhoeddi i Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod hydref 2017. |
| **Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i gymunedau gwledig** | Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar asesu pa mor effeithiol y mae sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru wrth gydweithio i asesu anghenion, nodi blaenoriaethau, darparu a chynnal gwasanaethau gweithredol allweddol i ddiwallu anghenion pobl mewn cymunedau gwledig. | Cyhoeddwyd Briff y Prosiect – mis Mehefin 2017. Arolwg wedi'i gyhoeddi i Gyngor Ynys Môn yn ystod haf 2017. Gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer 2018. |

| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
| --- | --- | --- |
| **Adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: adroddiadau 2017-18** | • Adolygiad o'r dirwedd caffael cyhoeddus<br>• Rheoli gwastraff (atal gwastraff)<br>• Rhaglen Cefnogi Pobl<br>• Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (cynllunio tymor canolig integredig)<br>• Gwasanaethau gwybodeg GIG Cymru<br>• Mynediad at wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol<br>• Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol) | Adroddiad Cefnogi Pobl wedi'i gyhoeddi ym mis Awst 2017.<br>Adroddiad caffael cyhoeddus wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017.<br>Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol) wedi'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017.<br>Gweddill yr adroddiadau'n cael eu drafftio.<br>Cyhoeddi yn ystod gaeaf 2017/gwanwyn 2018. |
| **Adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: adroddiadau 2018-19** | • Gwasanaethau Ieuenctid<br>• Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020<br>• Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE<br>• Gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau<br>• Gwasanaethau gofal sylfaenol | Cyhoeddi yn 2019.<br>Cyhoeddi yn 2018.<br>Cyhoeddi yn 2018.<br>Cyhoeddi yn 2018.<br>Cyhoeddi yn 2018. |

# Gwaith arolygu arall 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

Arddangosyn 4: Gwaith arolygu arall 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

| Gweithgaredd | Cwmpas | Statws |
|---|---|---|
| **2017-18 Estyn** | Ar wahân i'r rhaglen arolygu ysgolion lleol, nid oes arolygiad o wasanaeth addysg Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i gyhoeddi eto. | Adroddiad dilynol GwE wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017. |
| **2017-18 AGGCC** | Yn genedlaethol mae AGGCC yn cynnal adolygiad ar y cyd o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Nid oes unrhyw waith dilynol lleol wedi'i gyhoeddi yng Nghyngor Sir Ynys Môn eto. | Adroddiad cenedlaethol. |

Diweddarwyd ddiwethaf: 16.12.17

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2018 – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** Ebrill 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 451A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys

Cynllun Archwilio 2018

Crynodeb 4

Archwilio cyfrifon 4

Archwilio perfformiad 7

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant 11

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen 12

Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio 14

Atodiadau

Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau 16

Atodiad 2 – gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo 19

Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol 20

Atodiad 4 – astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 23

# Cynllun Archwilio 2018

## Crynodeb

1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio a ydynt yn 'gywir a theg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni'r dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

2 Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

3 Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

4 Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio cyfrifon

5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch'. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyfrifon:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

6 Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.

7 Mae Atodiad 1 yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.

8 Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

## Arddangosyn 1: fy null archwilio

Mae tri cham allweddol i'm dull archwilio, sef: cynllunio, gweithredu ac, yn olaf, ddod i gasgliad ac adrodd




9 Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

## Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio ariannol allweddol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Rheolwyr yn diystyru rheolaethau**<br>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau a dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd gan gynnwys cynnal adolygiad manwl o ddarpariaethau; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. |
| **Cyflawnder gwariant a'r dyddiad cau ar gyfer gwariant**<br>Rydym wedi nodi bod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â chyflawnder gwariant am y gall fod cymhelliant i beidio â chofnodi'r holl | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau er mwyn sicrhau cyflawnder gwariant; |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| wariant er mwyn i'r Cyngor gofnodi sefyllfa fwy ffafriol ar ddiwedd y flwyddyn. | • cynnal profion archwilio penodol mewn perthynas â chyflawnder gwariant; a<br>• chynnal profion manwl mewn perthynas ag amcangyfrifon a dyfarniadau rheolwyr fel y nodir yn y risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau a nodir uchod. |
| **Prisiadau eiddo**<br>Mae'r Cyngor yn cwblhau proses brisio lawn gylchol lle y caiff dosbarthiadau o asedau eu prisio'n llawn bob pum mlynedd, gyda phrisiadau eraill yn cael eu cwblhau gan briswyr mewnol.<br><br>Mae prisiadau eiddo, yn ôl eu natur, yn cynnwys dyfarniadau ac amcangyfrifon a gan fod prisiadau tir ac adeiladu ym mis Mawrth 2017 yn cyfateb i £288m, gall newidiadau mewn dyfarniadau ac amcangyfrifon gael effaith berthnasol r y gwerth cario. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• Cwblhau profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu mewn perthynas â'r broses prisio eiddo gan gynnwys nodi lleihad mewn gwerth y tu allan i'r broses brisio;<br>• Gweithio gydag arbenigwyr prisio mewnol er mwyn asesu rhesymoldeb tybiaethau sy'n sail i'r prisiad; ac<br>• Olrhain yr holl symudiadau prisio drwy'r datganiadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datgan yn deg. |

10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar wirionedd na thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn cwblhau'r archwiliad.

11 At ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel ‘ddibwys’ (5% o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

12 Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
- bod safleoedd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad yn effeithlon;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf;
- bod rhaglen waith arfaethedig yr Archwilwyr Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol; ac

- eich bod wedi amlinellu'r graddau rydych yn bwriadu dibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r achosion pan fyddwch yn dibynnu ar waith archwilwyr eraill, arbenigwyr ac ati.

13 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol Cyngor Sir Ynys Môn a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

## Swyddogaethau archwilio statudol

14 Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Arolygiad o dan Adran 30 o ddogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; a
- Hawl o dan Adran 31 i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

15 Codir ffioedd archwilio am waith a wneir wrth ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr. Gan y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, ni ellir amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.

16 Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, trafodaf ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

# Archwiliad perfformiad

17 Mae angen i mi gydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau byddaf yn parhau i geisio sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy wneud y canlynol:

- rhoi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol o'r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

18 Gan ei bod yn debygol y bydd Bil disgwyliedig Llywodraeth Leol Cymru yn cynnig na fydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, byddaf yn lleihau’r gwaith sy’n canolbwyntio ar y broses o gynllunio gwelliannau.

19 Yn y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur i’m helpu i gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni fy hun bod cynghorau wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) wrth ddefnyddio adnoddau. Gan na fyddaf yn gallu dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur

yn y dyfodol, yn 2018-19, ac mewn blynyddoedd dilynol, bydd canolbwynt fy rhaglenni archwilio perfformiad lleol yn cyd-fynd yn gliriach â'r nod o gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

20 Yn 2017-18 ymgymerais â'm darn cyntaf o waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef Sylwadau Blwyddyn Un. Nod y gwaith hwn oedd nodi sut mae cyrff cyhoeddus yn dechrau ymateb i'r Ddeddf a rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg. Bydd fy rhaglen ar gyfer 2018-19 yn cynnwys yr archwiliadau cyntaf sydd i'w cynnal o dan y Ddeddf. Bydd yr archwiliadau hyn yn asesu i ba raddau rydych yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni eich amcanion llesiant.

21 Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ffioedd lleol. Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi sefyllfa bresennol y rhaglen gyfredol o astudiaethau. Mae'r astudiaethau hyn yn arwain yn bennaf at adroddiad cenedlaethol a ategir gan allbynnau dysgu ar y cyd ac arfer da yn hytrach nag adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, lle bo hynny'n berthnasol, eu cynnwys mewn gwaith asesu gwelliant a'u cofnodi mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a ffocws y casgliadau.

22 Yn ystod gwanwyn 2018 byddaf hefyd yn ymgynghori ynghylch fy mlaenraglen o astudiaethau ym mhob sector a byddwn yn croesawu sylwadau ar y meysydd y dylwn ganolbwyntio fy adolygiadau cenedlaethol arnynt pan gaiff yr ymgynghoriad ei lansio.

### Arddangosyn 3: astudiaethau llywodraeth leol

Yn 2016-17 cyhoeddais dri adroddiad cenedlaethol a oedd yn ymwneud â llywodraeth leol a byddaf yn ymgymryd â gwaith maes ar gyfer tri adroddiad pellach yn ystod haf a hydref 2018.

| Astudiaeth | Statws |
|---|---|
| **Astudiaethau 2016-17** | |
| Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw | Cyhoeddwyd 9 Ionawr 2018 |
| Comisiynu strategol | Cyhoeddwyd Ebrill 2018 |
| Gwella llesiant drwy addasiadau i dai | Cyhoeddwyd 22 Chwefror 2018 |
| **Astudiaethau 2017-18** | |
| Gwasanaethau i gymunedau gwledig | Gwaith maes – Cyhoeddir yn ystod haf/hydref 2018 |
| Defnyddio data | Gwaith maes – Cyhoeddir yn ystod haf/hydref 2018 |
| Cronfa gofal integredig | Gwaith maes ym mis Chwefror – Cyhoeddir yn ystod gaeaf 2018 |

23 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2018-19 yn cynnwys:

## Arddangosyn 4: rhaglen archwilio perfformiad

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2018 yn cynnwys prosiectau lleol ac astudiaethau cenedlaethol

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwaith archwilio ac asesu gwelliant gan gynnwys archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant | Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, a chyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| Archwiliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni rhai o'r amcanion llesiant canlynol. |
| Sicrwydd ac Asesu Risg | Gwaith sy'n mynd rhagddo i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwneud rhagor o waith archwilio mewn blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. |
| Gwasanaethau Hamdden | Adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i ddarparu gwasanaethau hamdden gan adeiladu ar yr 'astudiaeth a gynhaliwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'r astudiaethau â thema 'cyflawni â llai'. |
| Gwaith dilynol ar gynigion lleol a chenedlaethol ar gyfer gwelliannau/argymhellion | Adolygiad dilynol o sampl o gynigion lleol a chenedlaethol ar gyfer gwelliannau/argymhellion. |
| **Astudiaethau Llywodraeth Leol 2018-19** | Fe'u hariennir gan Lywodraeth Cymru |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
| --- | --- |
| Rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn canolbwyntio ar ddiwygio a symleiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill ac mae'n cwmpasu oedolion, plant a'u gofalwyr, a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Bydd yr astudiaeth yn adolygu'r cynnydd y mae awdurdodau wedi'i wneud o ran cyflawni eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf ac yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella'r trefniadau rheoli a chyflawni presennol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein **hadroddiad cais am dystiolaeth** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |
| Rhoi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith | Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; darparu ffocws strategol ar y materion hyn; a sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyson i systemau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth ddarparu gwasanaethau. Bydd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau i wella cymorth i bobl y mae camdriniaeth a thrais o'r fath yn effeithio arnynt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwerth am Arian Gwasanaethau Cynllunio | Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn gydnerth a'i bod yn galluogi datblygu. Bydd gwasanaeth cynllunio effeithiol yn llywio'r gwaith o bennu cymeriad awdurdod lleol neu barc cenedlaethol, ei ddatblygu a sicrhau ei ffyniant. O ystyried gofynion y Ddeddf, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio yn sicrhau bod eu gwasanaethau yn addas at y diben er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn ogystal â helpu i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd ein hadolygiad yn ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau cynllunio ar gymunedau lleol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein **hadroddiad cais am dystiolaeth** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |

24 Nodir y prosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sydd naill ai'n dal i fynd rhagddynt neu a ddisodlwyd gan brosiectau amgen drwy gytundeb â chi, yn Atodiad 2.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

25 Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant Cyngor Sir Ynys Môn.

26 Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru symleiddio ei threfniadau sicrwydd drwy gyflwyno'r 'Rhestr Gryno o Grantiau Ardystiedig Llywodraeth Cymru' i bob awdurdod unedol. Mae hyn yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd mewn pedwar awdurdod y llynedd. Golyga hyn na ddylai fod ond nifer fach o hawliadau a ffurflenni grant i'w hardystio yn y ffordd 'draddodiadol' o hyd. Caiff ein ffi mewn perthynas â'n gwaith archwilio grantiau ei diwygio pan ddeëllir unrhyw effaith y bydd hyn yn ei chael ar y Cyngor.

27 Ar gyfer eleni, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno unrhyw adroddiad ar ganfyddiadau ffeithiol sy'n ymwneud ag unrhyw lefelau o weithgarwch na chanlyniadau.

28 Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 6.

## Materion sy'n ymwneud â hawliadau a ffurflenni grant penodol

29 Dylid nodi bod ein harchwiliad o'r profion ar gyfer Budd-daliadau Tai 2016/17 yn mynd rhagddo oherwydd yr amodau sylweddol a nodwyd mewn perthynas â 2015/16 (a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2018) a'r profion samplu ychwanegol sydd angen eu cynnal o ganlyniad i hyn. Rydym yn gweithio gyda'r Cyngor i gytuno ar amserlen mewn perthynas â chwblhau'r gwaith hwn.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

30 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2018 yn Arddangosyn 6.

### Arddangosyn 6: ffi archwilio

Bydd cyfanswm y ffi archwilio yn £427,261, sy'n cynnwys £192,000 am archwilio'r cyfrifon, £100,261 am waith archwilio perfformiad a £135,000 am ardystio hawliadau a ffurflenni grant.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon[2] | 192,000 | 192,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 100,261 | 100,261 |
| Gwaith ardystio grantiau[4, 5] | 135,000 | 135,000 |
| Cyfanswm y ffi | 427,261 | 427,261 |

Nodiadau:

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, oherwydd ni chaiff TAW ei chodi arnoch mwyach.

[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Hydref 2018.

[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

[4] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud.

[5] Nid yw'r Ffi Flaenorol yn cynnwys y gwaith ychwanegol roedd angen ei wneud i gwblhau ceisiadau am grant Budd-dal Tai 2016/17. Cytunir ar hyn â'r cleient unwaith y cytunir ar yr amserlen.

31 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

32 Ceir rhagor o wybodaeth am fy **ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd** ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Tîm archwilio

33 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: fy nhîm

Mae'r tabl hwn yn rhoi manylion cyswllt y tîm archwilio

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Ian Howse | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 264319 | ihowse@deloitte.co.uk |
| Wil Bevan | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07584 144 505 | wbevan@deloitte.co.uk |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | Derwyn.Owen@audit.wales |
| Andy Bruce | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07919 164779 | Andy.Bruce@audit.wales |
| Gwilym Bury | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07813 564432 | Gwilym.Bury@archwilio.cymru |

34 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm oll yn annibynnol ar Gyngor Sir Ynys Môn a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

35 Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i Gyngor Sir Ynys Môn sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: amserlen

Mae'r tabl hwn yn nodi fy amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau fy ngwaith archwilio yn yr awdurdod a chyflwyno adroddiad arno

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2018** | Ionawr 2018 | Mawrth 2018 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Rhwng mis Chwefror a mis Medi 2018 | Medi 2018<br>Medi 2018<br>Hydref 2018 |
| **Gwaith perfformiad:** | | |

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| • Archwiliad o'r Cynllun Gwella<br>• Archwiliad o'r Asesiad o Berfformiad<br><br>• Sicrwydd ac Asesu Risg<br><br>• Archwiliad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>• Gwasanaethau Hamdden<br>• Gwaith dilynol ar gynigion lleol a chenedlaethol ar gyfer gwelliannau/argymhellion | Ebrill 2018 - Tachwedd 2018<br><br>Ebrill 2018 - Chwefror 2019<br><br>Tachwedd 2018 - Chwefror 2019<br>Medi 2018 - Chwefror 2019<br><br>Mai – Gorffennaf 2018 | Mai 2018<br>Rhagfyr 2018<br><br>Parhaus<br><br>Mawrth 2019<br><br>Mawrth 2019<br><br>Medi 2018 |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol** | Ebrill 2018 - Mai 2019 | Mehefin 2019 |
| **Cynllun Archwilio 2019** | Ionawr 2019 | Mawrth 2019 |

* Yn amodol ar gymeradwyo'r canfyddiadau drafft mewn modd amserol gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

# Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

36 Mae manylion am ddatblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) allweddol a seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, ar gael yn Atodiad 3.

37 Nod rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy nodi a rhannu arfer da. Mae seminarau'r Gyfnewidfa yn dod ag amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus ynghyd i rannu eu profiadau ymarferol a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt mewn meysydd lle byddai'n fuddiol rhannu arfer da, yn ein barn ni. Cynhelir y seminarau hyn yn rhad ac am ddim i gyfranogwyr. Mae'r digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys:

- **Caffael Cynaliadwy.** Yn canolbwyntio ar sut i greu meddylfryd sy'n cefnogi caffael cynaliadwy mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- **Mesur Canlyniadau.** Gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 44 corff yn newid eu ffocws o allbynnau i ganlyniadau ac effaith.
- **Gweminar Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**. Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol
- **Seminar Ddigidol**, gan ystyried astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar ddefnyddio data'n effeithiol. Gan weithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Lab

- **Creu Cymunedau Cryf.** Yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, sgiliau cymunedol, y Gymraeg, tai a'r economi ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **Gwaith partneriaeth rhwng Cyrff gwirfoddol a Chyrff yn y Sector Cyhoeddus.** Hefyd yn cynnwys lansio'r Canllaw Arfer Da ar Reoli Grantiau
- **Archwiliad Ariannol –Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar.** Yn canolbwyntio ar newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol
- **Modelau Darparu Gwasanaeth Amgen.** Mewn partneriaeth â CLlLC, CGGC, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac Arfer Da Cymru
- **Seiberddiogelwch** Yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu
- **Yn Atal Derbyniadau i'r Ysbyty.** Ar y cyd â'r GIG, y sector Gofal Cymdeithasol, y sector Tai a phartneriaid o'r Trydydd Sector
- **Ieuenctid.** Yn dilyn adroddiadau thematig gan Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar ieuenctid. Bydd tîm y Gyfnewidfa yn dilyn hyn gyda seminar er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio cyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Sir Ynys Môn, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.   Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn Cyngor Sir Ynys Môn y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwiliad perfformiad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi, drwy archwilio'r cyfrifon neu fel arall, fodloni fy hun bod y corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer:

- sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- bod y corff, os oes angen iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 47 (gwybodaeth am berfformiad) wedi gwneud trefniadau o'r fath ar gyfer casglu a chofnodi'r wybodaeth a'i chyhoeddi fel sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i mi hefyd gynnal

archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Mae adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

(a) pennu amcanion llesiant; a

(b) cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n rhaid i mi gynnal y fath archwiliad o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith ystod cyfnod o 5 mlynedd. Cyn diwedd y cyfnod mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo

Arddangosyn 9: gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo

Mae gwaith archwilio perfformiad a gafodd ei gynnwys yng nghynllun archwilio'r flwyddyn ddiwethaf yn dal i fynd rhagddo.

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
| --- | --- | --- |
| **Astudiaeth Thematig: Adolygiad o ddefnyddwyr gwasanaethau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).** | Bydd yr adolygiad yn gwerthuso sut deimlad ydyw (fel aelod o'r cyhoedd) i ddelio â gwasanaethau'r cyngor, yn ogystal â phenderfynu p'un a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith er mwyn ei alluogi i barhau i gyrraedd SATC. | Cwblhawyd y gwaith maes. I'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2018. |
| **Gwaith Lleol: Parodrwydd Wylfa Newydd a'i effaith ar Allu Corfforaethol.** | Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar allu a pharodrwydd y Cyngor i gefnogi prosiect Wylfa Newydd yng nghyd-destun y Rhaglen Ynys Ynni ac amcanion strategol ehangach y Cyngor. | Cwblhawyd y gwaith maes. I'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2018. |
| **Astudiaeth Thematig: Craffu – Addas i'r Dyfodol** | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith pwyllgorau craffu. | Cwblhawyd y gwaith maes. I'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2018. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol** | Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Cyngor. | I'w gyhoeddi yn ystod haf 2018. |

# Atodiad 3

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### Newidiadau IFRS allweddol sydd i ddod

Arddangosyn 10: newidiadau IFRS allweddol sydd i ddod

Mae tri newid allweddol i reolau cyfrifyddu a fydd yn effeithio ar yr awdurdod dros y tair blynedd nesaf.

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| **IFRS 9 Offerynnau ariannol** | 2018-19 | Bydd IFRS 9 offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd o ddosbarthu a mesur asedau ariannol yn seiliedig ar egwyddorion. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg lleihau gwerth newydd ar gyfer asedau ariannol sy'n seiliedig ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion yr eir iddynt. Bydd hyn yn golygu y gellir cydnabod colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn fwy amserol. Caiff bron yr holl ofynion cyfrifyddu ar gyfer rhwymedigaethau ariannol eu dwyn ymlaen heb eu newid o IAS 39. |
| **IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid** | 2018-19 | Mae IFRS 15 refeniw o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor craidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r refeniw a gydnabyddir ddangos trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau a addawyd i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl bod ganddo hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn galw am ddatgeliadau mwy cynhwysfawr nag sydd eu hangen ar hyn o bryd. |
| **IFRS 16 Prydlesi** | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon gyfredol ar brydlesi, sef IAS 17. Y prif newid yw ei fod yn cael gwared i raddau helaeth ar y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a chyllid i ddeiliaid prydles drwy gyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer deiliaid prydles sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles â thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Yn sgil hyn, caiff pob prydles ei chydnabod ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl i ddefnyddio' gyda rhwymedigaeth gyfatebol am renti |

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| | | yn y dyfodol. Mae hwn yn newid mawr i drefniadau cyfrifyddu o ran deiliaid prydles. |

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ddeddf diogelu data newydd i'r UE gyfan a fydd yn gymwys o 25 Mai 2018 ymlaen ac sydd â'r nod o gysoni a diweddaru deddfau diogelu data. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Bil Diogelu Data, a fydd yn ymgorffori'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yng nghyfraith y DU ac yn disodli Deddf Diogelu Data 1998, ac y mae'n bwriadu y bydd hefyd yn dod i rym ar 25 Mai 2018.

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cyflwyno gofynion newydd o ran prosesu data personol, gan gynnwys egwyddor atebolrwydd, a fydd yn gofyn am gofnodion manylach o weithgareddau prosesu data personol, tystiolaeth o gydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data a'r mesurau diogelwch technegol a sefydliadol a roddir ar waith i ddiogelu'r data. Rydym yn diweddaru ein polisïau, ein prosesau a'n dogfennaeth ein hunain er mwyn bodloni'r gofynion hyn ac yn disgwyl i'r cyrff a archwilir gennym gymryd camau tebyg. Bydd meysydd allweddol o waith ychwanegol yn cynnwys defnyddio hysbysiadau prosesu teg manylach, mwy o asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd a chadw cofnodion mwy cynhwysfawr mewn perthynas â gweithgareddau prosesu.

## Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae awdurdodau gweinyddu wyth cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi sefydlu cronfa buddsoddi pensiwn yn unol â gofynion y llywodraeth. O fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio'r broses o gyfuno buddsoddiadau gwerth tua £15 biliwn o wyth cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'n rhaid i'r awdurdodau perthnasol chwarae rhan lawn yn y broses hon er mwyn sicrhau y rhoddir trefniadau priodol ar waith sy'n bodloni eu gofynion ac er mwyn sicrhau manteision y broses gyfuno sy'n cynnwys arbedion maint a chostau is.

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a chaiff adnoddau eu rhannu ar-lein.

Arddangosyn 11: Gweminarau a Seminarau arfaethedig y Gyfnewidfa yn y dyfodol

Mae fy rhaglen arfaethedig ar gyfer y Gyfnewidfa yn cynnwys 11 maes pwnc

| Dyddiad | Fformat | Pwnc |
|---|---|---|
| **Ebrill 2018** | Gweminar | **Caffael Cynaliadwy.** Yn canolbwyntio ar sut i greu meddylfryd sy'n cefnogi caffael cynaliadwy mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Mai 2018** | Gweminar | **Mesur Canlyniadau**. Gan gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 44 corff yn newid eu ffocws o allbynnau i ganlyniadau ac effaith. |
| **Mehefin 2018** | Seminar | **Gweminar Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.** Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Mehefin 2018** | Seminar | **Digidol**. Seminar, gan ystyried astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar ddefnyddio data'n effeithiol. Gan weithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Lab. |
| **Gorffennaf 2018** | Seminar | **Creu Cymunedau Cryf.** Yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, sgiliau cymunedol, y Gymraeg, tai a'r economi ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| **Medi 2018** | Seminar | **Gwaith partneriaeth rhwng Cyrff gwirfoddol a Chyrff yn y Sector Cyhoeddus.** Hefyd yn cynnwys lansio'r Canllaw Arfer Da ar Reoli Grantiau |
| **Hydref 2018** | Gweminar | **Archwiliad Ariannol – Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar.** Yn canolbwyntio ar newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol. |
| **Rhagfyr 2018** | Seminar | **Modelau Darparu Gwasanaeth Amgen.** Mewn partneriaeth â CLlLC, CGGC, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac Arfer Da Cymru. |
| **Ionawr 2019** | Gweminar | **Seiberddiogelwch.** Yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu. |
| **Chwefror 2019** | Seminar | **Atal Derbyniadau i'r Ysbyty.** Ar y cyd â'r GIG, y sector Gofal Cymdeithasol, y sector Tai a phartneriaid o'r Trydydd Sector. |
| **Mawrth 2019** | Seminar | **Ieuenctid.** Yn dilyn adroddiadau thematig gan Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar ieuenctid. Bydd tîm y Gyfnewidfa yn dilyn hyn gyda seminar er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd. |

# Atodiad 4

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan y Cyngor hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Cefnogir yr astudiaethau hyn gan gronfeydd a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus ac o bosibl i hwyluso trefniadau craffu pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Arddangosyn 12 yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir isod, mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu paratoi adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol, gwaith dilynol neu a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

Arddangosyn 12: astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

| Pwnc | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig (ar 11 Ionawr 2018) |
|---|---|
| Gwasanaethau gofal sylfaenol[2] | Chwefror/Mawrth 2018 |
| Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol | Mawrth/Ebrill 2018 |
| Rheoli gwastraff (atal gwastraff)<br>Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)<br>Rheoli gwastraff (caffael seilwaith) | Mawrth/Mai 2018 |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd[3] | Mawrth/Ebrill 2018 |
| Gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau – adroddiad cryno cenedlaethol | Ebrill/Mai 2018 |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 | Ebrill/Mai 2018 |
| Cyllid busnes | Mai 2018 |

[2]Adroddiad llawn data cychwynnol sy'n rhoi ‘darlun o faes gofal sylfaenol’ cyn i ragor o waith archwilio lleol gael ei wneud.

[3] Yn dilyn rhywfaint o waith arfer da, rydym yn bwriadu llunio papur cryno byr er mwyn tynnu sylw at rai o'r materion a godwyd a rhywfaint o'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith hwnnw, wedi'u hategu gan gyfres o bodlediadau.

| Pwnc | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig (ar 11 Ionawr 2018) |
|---|---|
| Costau staff asiantaeth y GIG[4] | Haf 2018 |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 | Haf 2018 |
| Gwella llesiant pobl ifanc | Hydref 2018 |
| Gwasanaethau radioleg – crynodeb cenedlaethol | I'w gadarnhau |
| Cronfa Gofal Integredig | I'w gadarnhau |
| Gofal a dderbynnir gan blant a phobl ifanc[5] | I'w gadarnhau |

[4]Yn ddiweddar, mae gwaith wedi dechrau ar gasglu data o bob gwasanaeth iechyd yn y DU er mwyn ategu papur ar ddulliau amrywiol o ymdrin â chostau cynyddol cyflogi staff meddygol a nyrsio asiantaeth o fewn y GIG. Nid yw union fformat yr allbwn hwn wedi'i gadarnhau eto.

[5] Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus nawr wedi amlinellu ei gynlluniau cychwynnol ar gyfer rhywfaint o waith ymchwilio parhaus ar y pwnc hwn. Byddaf yn cynorthwyo'r gwaith hwn, er nad yw union natur nac amserlen unrhyw allbynnau ychwanegol sy'n ymwneud ag archwilio wedi'u cadarnhau eto.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 24 Ebrill 2018 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 16 Ebrill 2018 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 26 Ionawr 2018
- Gwaith dilyn-i-fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol blaenorol
- Gweithredu camau rheoli
- Y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2017/18
- Diweddariadau penodol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Yn ogystal gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

2.2 Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo gohirio'r adolygiad o'i delerau ac amodau hyd nes y bydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi cyhoeddi ei ddogfen arweiniad newydd.

# Diweddariad Archwilio Mewnol 2018

## Ebrill 2018

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**
**Pennaeth Archwilio a Risg**

## Adroddiadau Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o’r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.

2. Rydym wedi cwblhau un o adroddiadau yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohono isod:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Cymedrol | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Rheoli Prosiectau a Rhaglenni | **Rhesymol** | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |

## Trefniadau Rheoli Prosiectau a Rhaglenni

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** | **0** | **Catastroffig** |
| | **0** | **Uchel** |
| | **2** | **Cymedrol** |
| | **0** | **Isel** |

3. Cynhaliwyd archwiliad o'r trefniadau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18. Roedd hwn yn adolygiad lefel uchel a oedd yn edrych ar y modd y caiff rheolaeth rhaglenni a phrosiectau a lywodraethu.

4. Mae'r Cyngor wedi sefydlu dau o Fyrddau Rhaglen corfforaethol er mwyn darparu trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant ar gyfer darparu rhaglenni a phrosiectau'r Cyngor. Mae'r Byrddau'n craffu'r cynnydd a wneir ar brosiectau neu raglenni cyfredol ac yn cau prosiectau wrth iddynt gael eu cwblhau.

5. Mae swyddog a chanddo/chanddi'r awdurdod priodol yn cadeirio pob un o'r Byrddau ac mae arnynt aelodau priodol. Mae hyn yn sicrhau bod prosiectau a rhaglenni'n cael eu llywodraethu ar lefel gorfforaethol a bod lefel y ddealltwriaeth ymysg Aelodau ac uwch swyddogion yn cynyddu.

6. Mae gan y rhan fwyaf o'r prosiectau hefyd eu trefniadau llywodraethu eu hunain gyda'u byrddau prosiect unigol. Os nad yw hynny'n ymarferol neu'n effeithlon, efallai y bydd grŵp arall yn cael y cyfrifoldeb o lywodraethu'r prosiect. Dyna'r achos gyda'r prosiect Effeithlonrwydd Ynni sy'n cael ei llywodraethu gan y grŵp Tir ac Asedau.

7. Mae dogfennau rheoli prosiect ar gael yn rhwydd ar y fewnrwyd a chânt eu diweddaru yn ôl yr angen. Mae staff hefyd wedi cael hyfforddiant rheoli prosiect a chynhelir yr hyfforddiant nesaf ym mis Mai 2018. Mae'r rheolwyr prosiect corfforaethol yn y gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol hefyd yn rhoi cymorth ac arweiniad i swyddogion sydd wedi cymryd arnynt rôl rheolydd prosiect fel rhan o'u swyddogaeth arferol mewn gwasanaeth.

8. Fodd bynnag, ymddengys mai ychydig iawn o bwys a roddir ar asesiadau effaith a chofrestrau risg ac nid oes sôn amdanynt yng nghofnodion y cyfarfodydd; ni chodwyd unrhyw faterion yn y cofnodion ynghylch diffyg asesiadau effaith a gofynnwyd a oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud gydag ymwybyddiaeth lawn o gynnwys yr asesiadau. Dylid defnyddio'r asesiadau risg er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gydag ymwybyddiaeth lawn o'r modd y gall effeithio ar wahanol rannau o'r gymuned.

9. Gwnaed llawer o waith i sicrhau bod prosiectau neu raglenni'r Cyngor yn cael eu llywodraethu'n briodol gyda sefydlu Byrddau Rhaglen Corfforaethol, y cymorth a ddarperir gan reolwyr rhaglenni corfforaethol a'r fethodoleg rheoli rhaglen a ddefnyddir ac a hyrwyddir yn gorfforaethol. O'r herwydd, gallwn roi '**Sicrwydd Rhesymol**' ar gyfer trefniadau monitro'r rhaglenni a'r prosiectau a codwyd dwy o risgiau 'Cymedrol' er sylw'r Rheolwyr.

## Dilyn-i-fyny adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol

10. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny yr holl adroddiadau gyda sgôr sicrwydd 'Cyfyngedig' neu is.

11. Rydym wedi cwblhau 1 adolygiaddilyn-i-fyny yn ystod y cyfnod hwn:

| Teitl | Dilyn i Fyny | Cynnydd | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cludiant Ysgol | 1 | Da | Rhesymol | 0 | 0 | 3 | 2 | 5 |

### Cludiant Ysgol

| | | Materion / risgiau Gwreiddiol | Materion / risgiau sy'n parhau i fod angen sylw |
|---|---|---|---|
| Cynnydd Da | Dyddiad yr Adroddiad | Medi 2017 | Ebrill 2018 |
| | Sicrwydd | Cyfyngedig | Rhesymol |
| | Catastroffig | 0 | 0 |
| | Uchel | 7 | 0 |
| | Cymedrol | 7 | 3 |
| | Isel | 2 | 2 |

12. Cadarnhaodd ein adolygiad fod cryn gynnydd wedi cael ei wneud tuag at wella trefniadau Cludiant Ysgol a rhoi sylw i'r Materion/Risgiau a godwyd yn ein hadroddiad.

13. Mae 11 o'r risgiau a nodwyd yn ein hadroddiad adolygu wedi cael sylw llawn. Mae 3 risg wedi cael eu gweithredu'n rhannol neu yn y broses o gael sylw; mae'r rhain yn ymwneud â rhoi bathodynnau adnabod i'r holl yrwyr bysus ysgol ym mis Medi 2018, gweithrediad y system Capita ONE ac adolygu meini prawf cymhwyster tacsis ysgol ynghyd ag adolygu'r gyllideb tacsis ysgol.

14. Mae 2 risg yn parhau i fod angen sylw ac mae'n yn ymwneud â'r broses gaffael nesaf pryd bydd yr Adain Gludiant yn adolygu telerau ac amodau ei chontractwyr cyfredol.


15. O'r gweithredoedd sy'n parhau i fod angen sylw (gan gynnwys gweithredoedd sydd wedi eu gweithredu'n rhannol), mae dau yn parhau i fod o fewn y dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu. Fodd bynnag, mae'r holl ddyddiadau targed wedi cael eu hadolygu a'u hymestyn yn seiliedig ar y diweddariadau a gafwyd. Lle mae hynny'n angenrheidiol, mae'r graddfeydd blaenoriaeth wedi cael eu hailasesu er mwyn cymryd i ystyriaeth y gweithredoedd hyd yma ac mae dyddiadau targed newydd ar gyfer gweithrediad wedi cael eu cytuno.

16. Mae'r Cyngor wedi gwneud 'Cynnydd Da' o ran mynd i'r afael â'r Risgiau/Materion ac o ganlyniad mae'r raddfa sicrwydd wedi codi i '**Sicrwydd Rhesymol'**.

## Camau Gweithredu gan Reolwyr

17. Fel rhan o'r ymagwedd newydd tuag at archwilio mewnol, rydym wedi symud i ffwrdd o'r arfer o wneud argymhellion ac, yn lle hynny, rydym yn codi 'Materion' a 'Risgiau'. Er mwyn annog rheolwyr i gymryd perchenogaeth o'r risgiau, rydym yn rhoi iddynt y cyfrifoldeb o ddatblygu'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a nodwyd gennym.

18. Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â'r tueddiadau, mae'r graff isod yn nodi perfformiad o ran gweithredu'r argymhellion / mynd i'r afael â'r risgiau:




| | Ch3 2016/17 | Ch4 2016/17 | Ch1 2017/18 | Ch2 2017/18 | Ch3 2017/18 | Ch4 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel Coch Ambr | 81% | 81% | 80% | 90% | 97% | 91% |
| Canolig Melyn | 82% | 88% | 87% | 90% | 94% | 90% |
| Isel Gwyrdd | 66% | 80% | 80% | 83% | 90% | 90% |

19. Fel y gwelir, mae perfformiad y Cyngor wedi gwella'n raddol dros y 15 mis diwethaf gyda chynnydd sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn.

20. Yn flaenorol, roedd dadansoddiad o Faterion/Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw yn dangos y gallai rheolwyr a oedd â'r cyfrifoldeb o weithredu argymhellion ymestyn y dyddiadau targed heb gyfeirio o gwbl at Archwilio Mewnol. Tynnwyd y cyfleuster hwnnw oddi ar y rheolwyr ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gais i ymestyn dyddiad targed i Archwilio Mewnol a fydd yn ystyried yr amgylchiadau cyn caniatáu estyniad.

21. Roeddem yn disgwyl i hyn gael effaith ar y gyfradd weithredu ac y byddai perfformiad yn dirywio yn y tymor byr a dyna sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, mae hon yn broses gadarnach ar gyfer sicrhau bod risgiau'n cael sylw ac yn lleihau'r risg o 'lithro'.

22. Caiff adroddiad manylach ar yr holl argymhellion a Materion/Risgiau sy'n weddill ei gyflwyno ddwywaith y flwyddyn a chyflwynir yr adroddiad nesaf ym mis Medi 2018.

## Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2017/18

23. Oherwydd bod cryn dipyn o waith o 2016/17 wedi llithro, ymddeoliad y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ac absenoldeb tymor hir ac ymddiswyddiad Uwch Archwiliwr, roedd llai o adnoddau ar gael i gwblhau Cynllun Gweithredol 2017/18.

24. O'r herwydd, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal asesiad risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Mae adolygiadau archwilio wedi cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i'r meysydd risg uchaf.

25. Mae'r Cynllun Blynyddol diwygiedig ynghlwm yn Atodiad A. Hyd yma, rydym wedi cwblhau 79% o'r cynllun diwygiedig ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar 21% pellach – cyfanswm o 100%.

26. Mae 92% o archwiliadau wedi cael eu cwblhau ar amser, yn erbyn targed o 90%. Rydym wedi cyflwyno 81% o'n hadroddiadau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rhaglenedig.

27. Wedi i'r Pennaeth Archwilio a Risg gychwyn yn ei swydd ym mis Ebrill 2017, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i foderneiddio'r ymagwedd archwilio mewnol gan gynnwys ymarfer *Meddwl drwy Systemau* i nodi effeithlonrwydd a gwella'r broses a'r mecanweithiau adrodd. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau.

## Eitemau y gofnnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

28. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Pennaeth Archwilio a Risg ddilyn i fyny ar ymateb y swyddog yn dilyn yr adolygiad dilyn i fyny cyntaf o'r Fframwaith Caffael Corfforaethol. Ceir diweddariad llafar yn ystod y cyfarfod.

## Materion Eraill

### Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

29. Dylai'r Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Cafodd y cylch gorchwyl ei adolygu a'i gymeradwyo ddiwethaf yn Chwefror 2015, gyda'r Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo yn Ebrill a'r Cyngor Sir ym Mai 2015.

30. Yn unol â Blaenraglen Waith y Pwyllgor, roedd y cylch gorchwyl i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r adolygiad o'r cylch gorchwyl tan y cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, yn dilyn cyhoeddi canllawiau newydd CIPFA – rhagwelwyd y byddai hynny'n digwydd ym mis Tachwedd 2017.

31. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cofio o'r cyfarfod ym mis Rhagfyr fod CIPFA wedi gohirio cyhoeddi'r canllawiau hyd fis Rhagfyr 2017 a bod y Pwyllgor wedi cytuno i ohirio'r adolygiad o'i Gylch Gorchwyl.

32. Fodd bynnag, mae CIPFA wedi gohirio cyhoeddi'r canllawiau. Er bod y ddogfen wedi ei chwblhau, rhaid i CIPDA ddisgwyl am y Swyddfa Gartref sydd wrthi'n paratoi Côd Ymarfer newydd ar Reolaeth Ariannol sy'n cael effaith ar bwyllgorau archwilio'r heddlu. Cafwyd cadarnhad y bydd yn awr yn cyhoeddi'r canllawiau newydd ym mis Ebrill 2018.

33. O'r herwydd, cynigir y dylid gohirio'r adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

34. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r gohiriad.

## Atodiad A – Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllu niwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADOLYGIADAU AWDURDOD GYFAN (CORFFORAETHOL)** | | | | | | | | | | |
| 1 | Corfforaethol | Gwariant Cyfalaf | AM Cylchol | Terfynol | Rhagfyr 2017 (T) Chwefror 2018 (C) | Sylweddol | 15 | 15 | 15 | |
| 2 | Corfforaethol | Fframwaith Caffael Corfforaethol | Risg a Aseswyd gan AM | Terfynol | Medi 2017 | Cyfyngedig | 10 | 6 | 6 | |
| 3 | Corfforaethol | Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – Parodrwydd Data (Interim) | Risg Gorfforaethol YM13 Adroddiad ICO | Terfynol | Chwefror 2018 | Rhesymol | 15 | 15 | 10 | Archwiliad mewn dwy ran – interim a llawn |
| 55 | Corfforaethol | Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – Parodrwydd Data (Llawn) | Risg Gorfforaethol YM13 Adroddiad ICO | Drafft | Mehefin 2018 | | 5 | 5 | 2.5 | Archwiliad llawn |
| 4 | Corfforaethol | Adfer TGCh ar ôl Trychineb | Risg Gorfforaethol YM10 | Terfynol | Medi 2017 | Sylweddol | 10 | 6 | 6 | |
| 5 | Corfforaethol | Rheoli Risg | AM Cylchol | Wedi ei ddileu | Amh | Amh | 10 | 0 | 0 | Cynhaliwyd trosolwg yn 2017 gyda'r |

Tudalen 73

Tudalen 74

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllunîwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | Rheolwr Yswiriant a Risg, yr UDA a'r Penaethiaid. Adolygiad yn 2018/19 |
| 6 | Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Risg Gorfforaethol YM12 | Terfynol | Gorffennaf 2017 | Rhesymol | 20 | 20 | 20 | |
| 7 | Corfforaethol | Rhaglen Drawsnewid – Gweithio'n Gallach | Ar gais y Swyddog Adran 151 | Wedi gohirio | Amh | Amh | 15 | 15 | 0.5 | Adolygiad ôl-weithredol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Adolygu'r canlyniad a ystyried a oes angen adolygiad pellach |
| 8 | Corfforaethol | Diwylliant Foesegol | Gofyniad PSIAS | Terfynol | Medi 2017 | Rhesymol | 20 | 16 | 16 | |
| 9 | Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – Gofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth Newydd | Wedi Gohirio | Amh | Amh | 20 | 3 | 0.75 | Estyniad gan LlC i weithredu cyllidebau a rennir. Felly cadw golwg yn unig gyda'r nod o gynnal archwiliad yn 2018/19 |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllunìwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Corfforaethol | Rheoli Rhaglenni / Prosiectau | Ar gais y PW – un o amcanion yr UDA | Terfynol | Chwefror 2018 (T)<br>Ebrill 2018 (C) | Rhesymol | 15 | 15 | 13 | |
| 11 | Corfforaethol | Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Pryder Archwilio | Gwaith Maes | *Chwefror 2018* | | 15 | 15 | 17.75 | |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH ADNODDAU A'R SWYDDOG ADRAN 151** | | | | | | | | | | |
| 12 | Adnoddau | Y Dreth Gyngor a NDR | System Ariannol Allweddol | Terfynol | Rhagfyr 2017 | Rhesymol | 20 | 20 | 19 | |
| 13 | Adnoddau | Rhestr o Asedau Sefydlog a Chyfrifo Cyfalaf | System Ariannol Allweddol | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 10 | 0 | 0 | Gwaith wedi cael ei wneud gan archwilwyr allanol. Rhywfaint o or-gyffwrdd gyda'r archwiliad ar Wariant Cyfalaf. Yr archwiliad wedi'i ddileu. |
| 14 | Adnoddau | Rheoliadau Lefel Uchel ar gyfer Systemau Ariannol Allweddol | System Ariannol Allweddol | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 10 | 0 | 0 | Y diwrnodau wedi cael eu trosglwyddo i Ddyledwyr Amrywiol oherwydd y problemau a nodwyd. Mae systemau ariannol |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | allweddol wedi cael sylw unigol ar wahân i Reoli Trysorlys sydd wedi bod yn wyrdd am nifer o flynyddoedd. |
| 15 | Adnoddau | Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | System Ariannol Allweddol | Terfynol | Medi 2017 | Rhesymol | 15 | 23 | 23 | Dyddiau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn |
| 16 | Adnoddau | Prif System Gyfrifo | System Ariannol Allweddol | Terfynol | Mehefin 2017 | Rhesymol | 10 | 7 | 7 | |
| 17 | Adnoddau | Incwm – Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu | System Ariannol Allweddol | Terfynol | Chwefror 2018 | Cyfyngedig | 15 | 15 | 9.75 | |
| 18 | Adnoddau | Arian Mân / Cyfrifon Imprest | System Ariannol Allweddol | Wedi Gohirio | Amh | Amh | 10 | 10 | 0.25 | Gwaith yn parhau i fynd rhagddo – wrthi'n ymgynghori ar y polisi ar hyn o bryd. Gohiriwyd tan Ch2 2018/19. |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllu niwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Adnoddau | Dyledwyr Amrywiol | System Ariannol Allweddol | Terfynol | Rhagfyr 2017 | Cyfyngedig | 10 | 27 | 26.5 | Diwrnodau a drosglwyddwyd o'r Systemau Ariannol Allweddol a'r ddarpariaeth wrth gefn oherwydd problemau a nodwyd |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH – BUSNES Y CYNGOR S'R SWYDDOG MONITRO** | | | | | | | | | | |
| 20 | Busnes | Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Aelodau – Lwfansau Aelodau | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 8 | 0 | 0 | Trafodwyd gyda'r Swyddog Monitro – dim yn risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Parodrwydd GDPR |
| 21 | Busnes | Gwasanaethau Cyfreithiol | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 6 | 0 | 0 | Trafodwyd y Gofrestr Risg gyda'r Swyddog Monitro –yr holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | i'r archwiliad Parodrwydd GDPR. |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH – TRAWSNEWID** | | | | | | | | | | |
| 22 | Trawsnewid | Canolfannau Data | Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 10 | 0 | 0 | Wedi ei ohirio tan 2018/19. Cynllunio ar gyfer digwyddiadau annisgwyl wedi derbyn sylw yn yr archwiliad Adfer TGCh yn dilyn Trychineb. |
| 23 | Trawsnewid | Cyfeirlyfr Gweithredol | Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 15 | 0 | 0 | Wedi ei ohirio tan 2018/19. Dim yn flaenoriaeth. |
| 24 | Trawsnewid | Archwiliad Diogelwch y Rhwydwaith (Diogelwch Seiber) | Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor | Wedi Gohirio | Amh | Amh | 15 | 15 | 4.25 | Wedi ei ohirio tan 2018/19 - TGCh ddim yn barod |
| **PENNAETH RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | | | | |
| 25 | Datblygu Economaidd | Swyddogaeth Datblygu Economaidd | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17 | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 15 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllu niwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | gofrestr risg. Archwiliad wedi'i ddileu. |
| 26 | Hamdden | Swyddogaeth Hamdden – Llywodraethiant a Rheoli | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Wedi Gohirio | Amh | Amh | 15 | 2 | 1.75 | Wedi ei ohirio tan Ch2 2018/19 oherwydd ailstrwythuro'r gwasanaeth |
| 27 | Cynllunio | Tîm Strategaeth a Chymorth | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 10 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Archwiliad wedi'i ddileu |
| 28 | Safonau Masnach | Cofrestriad Sifil | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Terfynol | Medi 2017 | Sylweddol | 10 | 10 | 10 | |
| 29 | Rheoleiddio | Gwasanaethau Trwyddedu | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Terfynol | Rhagfyr 2017 | Sylweddol | 10 | 17 | 17 | Diwrnodau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. Ddim wedi cael ei archwilio o'r blaen ac angen rhoi sylw i gryn |

Tudalen 80

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllu niwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | dipyn o ddeddfwriaeth |
| **PENNAETH GWASANAETHAU PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | | | | | | | | | | |
| 30 | Priffyrdd | Gwasanaethau Meysydd Parcio a Gorfodaeth | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 15 | 0 | 0 | Cynllun peilot newydd wedi ei sefydlu gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodaeth parcio. Gohirio'r archwiliad tan 2018/19 er mwyn rhoi amser i'r cynllun peilot gynhyrchu canlyniadau. Mae contract ar wahân ar gyfer gweithgareddau gorfodaeth eraill (baw cŵn a sbwriel. Symud yr archwiliad hwn hefyd i 2018/19 |
| 31 | Priffyrdd | Gwasanaethau Peirianneg a Dylunio | Gwasanaeth ddim wedi cael | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 15 | 0 | 0 | Gwasanaeth yn cael ei leihau a ddim yn faes |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ei archwilio ers peth amser | | | | | | | blaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Gwasanaeth. Dim ar y gofrestr risg. |
| 32 | Eiddo | Rheoli Stadau ac Eiddo – Gwaith trwsio a chynnal a chadw mewn ysgolion | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi Gohirio | Amh | Amh | 15 | 1 | 0.25 | Wedi ei ohirio tan 2018/19 – prosesu newydd heb ei gweithredu eto |
| 33 | Priffyrdd | Priffyrdd a Pheirianneg Sifil – Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi Gohirio | Amh | Amh | 15 | 3 | 2.5 | Wedi ei ohirio tan Ch1 2018/19 oherwydd cyfnod prysur ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a thywydd gwael |
| **PENNAETH TAI** | | | | | | | | | | |
| 34 | Tai | Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Diwygio Lles (Credyd Cynhwysol) | System Ariannol Allweddol | Terfynol | Chwefror 2018 | Rhesymol | 15 | 3 | 23 | Diwrnodau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r Archwiliad Tai Fforddiadwy |
| 35 | Tai | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a'r | Cynllun Busnes Corfforaethol | Terfynol | Chwefror 2018 | Rhesymol | 15 | 5 | 5 | Diwrnodau sy'n weddill wedi eu trosglwyddo i'r |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllu niwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun Benthyciadau Pontio | | | | | | | | archwiliad Rhenti Tai |
| 36 | Tai | Rhaglen Cefnogi Pobl | Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser | Wedi'i gwblhau | Chwefror 2018 | Sylweddol | 15 | 15 | 14.75 | |
| **PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | | | | |
| 37 | Oedolion | Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) | Risg Ymgyfreithiad mewn perthynas â'r Asesiadau DoLS sy'n parhau i fod angen sylw | Gwaith Maes | *Medi 2018* | | 15 | 15 | 8 | |
| 45 | Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Sgopio | *Medi 2018* | | 0 | 15 | 0.25 | Pennaeth Gwasanaeth yn pryderu ynghylch llywodraethu a rheoli gwariant. Maes blaenoriaeth. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo o'r Archwiliad Cyflawni a Rheoli |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | Gwasanaethau ar y Cyd |
| 38 | Oedolion | Darparu a Rheoli Gwasanaethau ar y Cyd mewn perthynas â gwasanaethau i bobl hŷn gyda'r Bwrdd Iechyd | Dogfen gyflawni flynyddol 2016/17 | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 15 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r Archwiliad Taliadau Uniongyrchol |
| 39 | Oedolion | Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed – Contractau Gofal Cartref | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17 | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 15 | 0 | 0 | Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r ddarpariaeth wrth gefn. |
| **PENNAETH GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | | | | |
| 40 | Plant | Recriwtio Gofalwyr Maeth | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Drafft | *Ebrill 2018* | | 15 | 20 | 17.75 | Y fid Buddsoddi i Arbed wedi dod i ben ers 2016 ac mae recriwtio a |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | chadw gofalwyr maeth, gan gynnwys y swyddog recriwtio yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllideb gyfredol yr adran. Fodd bynnag, byddai'r gwasanaeth yn elwa o adolygiad er mwyn sicrhau bod y rheolaethau yn eu lle ers 2016 ac i roi trosolwg o'r sefyllfa gyfredol i reolwyr o gymharu â 3 blynedd ddiwethaf ynghyd â'r newidiadau gyda golwg ar ddwyn sylw at |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynllu niwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | risgiau/materion o ganlyniad i'r newidiadau hyn. |
| **PENNAETH DYSGU** | | | | | | | | | | |
| 41 | Dysgu | Ysgolion Uwchradd – Cyllid ar gyfer y 6ed Dosbarth - Ysgol Syr Thomas Jones | Adolygiad cylchol | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 10 | 0 | 0 | Dim yn faes risg uchel. Archwiliad wedi ei ddileu. |
| 42 | Dysgu | Ysgolion Cynradd – Adolygiadau Thematig – Casglu Incwm mewn Ysgolion | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Gwaith Maes | *Medi 2018* | | 20 | 20 | 0.75 | |
| 43 | Dysgu | Absenoldeb Salwch mewn Ysgolion | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Wedi'i ddileu | Amh | Amh | 20 | 0 | 0 | Gwaith sylweddol wedi'i wneud |
| 44 | Dysgu | Cludiant Ysgol | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | Terfynol | Medi 2017 | Cyfyngedig | 20 | 26 | 26 | Diwrnodau ychwanegol wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. Nodwyd problemau sylweddol. |

Tudalen 85

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | | | | |
| | | Gwaith dilyn i fyny | | | | | 35 | 70 | 84.25 | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig. Gwaith sylweddol yn cael ei wneud i glirio hen argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw, yn arbennig yn yr ysgolion. |
| | | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol, cyfeiriadau ac ymholiadau. | | | | | 155 | 90 | 90 | Nifer y dyddiad wedi eu gostwng oherwydd gwneud i ffwrdd â swydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol. |
| | | **Cyfeiriadau :** | | | | | | | | |
| 46 | Cyfeiriad | Adroddiad AGGCC – Llywodraethiant mewn perthynas â'r Cynlluniau Gweithredu | Cais gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Terfynol | Mehefin 2017 | Amh | 0 | 2 | 2 | |

Tudalen 86

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 47 | Cyfeiriad | Gor-daliad Cyflogres | Cais gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Chwefror 2018 | Amh | 0 | 7 | 7 | |
| 48 | Cyfeiriad | Cofrestru Taliadau Ariannol | Cais gan y Swyddog Adran 151 | Gwaith Maes | *Chwefror 2018* | | 0 | 25 | 30 | |
| 49 | Cyfeiriad | Clwb ar ôl Ysgol – Anghysonderau Cyllid | Cais gan y Gwasanaethau Dysgu | Wedi'i gwblhau | Chwefror 2018 | Amh | 0 | 14 | 13.75 | |
| | | Cau Gwaith y Flwyddyn Flaenorol | | | | | 20 | 20 | 20 | |
| | | **Ardystiad Grant:** | | | | | 35 | 0 | 0 | Gwaith ardystiad grant wedi'i gwblhau |
| 50 | Grant | Grant Gwisg Ysgol | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Rhagfyr 2017 | Sylweddol | 0 | 2.5 | 2.5 | |
| 51 | Grant | Grant Rhentu Doeth Cymru | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Sylweddol | 0 | 10 | 10 | |
| 52 | Grant | Grant Gwella Addysg | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Sylweddol | 0 | 3 | 3 | |
| 53 | Grant | Grant Datblygu Disgyblion | Cais gan yr Adain Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Gorffennaf 2017 | Sylweddol | 0 | 6 | 6 | |
| 54 | Grant | Chweched Dosbarth a Dysgu Parhaus Oedolion 2016-17 | Cais gan yr Adran Gyfrifeg | Wedi'i gwblhau | Chwefror 2018 | Sylweddol | 0 | 0.5 | 0.5 | |
| | | Ymgynghoriaeth Gorfforaethol | | | | | 55 | 60 | 59.5 | |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau | | | | | 23 | 45 | **45.25** | |
| | | Adolygiad Rheoli | | | | | 0 | 45 | 43.5 | Dyddiau wedi eu trosglwyddo o Rheoli |
| | | Digwyddiadau Annisgwyl | | | | | 120 | 1 | 0 | |
| | | **CYFANSWM** | | | | | **1062** | **768** | **741.5** | |
| **DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DIM YN GYNHYRCHIOL)** | | | | | | | | | | |
| | | Risg ac Yswiriant | | | | | 50 | 20 | 11.25 | |
| | | Gweinyddiaeth Gyffredinol | | | | | 70 | 65 | 63.75 | |
| | | Datblygiad ac Adolygiad Personol, Cyfarfodydd Un i Un a Chyfarfodydd Tîm | | | | | 8 | 32 | 31.75 | Dim digon o ddiwrnodau wedi eu neilltuo. Dyddiau wedi'u trosglwyddo o'r dyddiau digwyddiadau annisgwyl. |
| | | Rheoli, gan gynnwys ymgynghori gydag Archwilwyr Allanol a pharatoi'r cynllun archwilio | | | | | 75 | 45 | 42 | Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r Adolygiad Rheoli |

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Statws Cyfredol | Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Lefel Sicrwydd | Nifer y dyddiau a gynlluniwyd | Nifer ddiwygiedig y dyddiau | Nifer wirioneddol y dyddiau | Rheswm am y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliau Blynyddol (164), gan gynnwys absenoldeb statudol (41) ac absenoldeb arbennig (90) | | | | | 245 | 295 | 298.5 | Nifer y dyddiau wedi eu diwygio oherwydd ymddeoliad y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ac absenoldeb arbennig ac ymddiswyddiad yr Uwch Archwiliwr. |
| | | Absenoldeb Salwch | | | | | 45 | 20 | 19 | Record salwch y tîm yn dda – y diwrnodau wedi eu trosglwyddo i hyfforddiant |
| | | Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff gan gynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | | | 10 | 85 | 87.5 | Dim digon o ddiwrnodau wedi eu neilltuo –trosglwyddwyd dyddiau o'r gyfran a neilltuwyd ar gyfer salwch a digwyddiadau annisgwyl |
| | | **CYFANSWM** | | | | | **503** | **562** | **553.75** | |

This page is intentionally left blank

# BLAENRAGLEN WAITH

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**24 Ebrill 2018**



| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **24 Ebrill 2018**<br>**27 Mehefin 2018**<br>**24 Gorffennaf 2018**<br>**19 Medi 2018**<br>**4 Rhagfyr 2018**<br>**12 Chwefror 2019** | **Diweddariad Archwilio Mewnol**<br>• Diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **24 Ebrill 2018**<br>**27 Mehefin 2018**<br>**24 Gorffennaf 2018**<br>**19 Medi 2018**<br>**4 Rhagfyr 2018**<br>**12 Chwefror 2019** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol**<br>• Diweddariad ar waith Archwilio Allanol:<br>  ○ Archwiliad ar Berfformiad<br>  ○ Archwiliad Ariannol | **Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Gwilym.bury@audit.wales<br><br>**Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloittes**<br>cedge@deloitte.co.uk |
| **24 Ebrill 2018** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Adroddiad y Cadeirydd**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **27 Mehefin 2018** | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**<br>• Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd i weld a yw'n briodol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau'r sector ac anghenion y Cyngor. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **27 Mehefin 2018** | **Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2017/18 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2018/19. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>**Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **27 Mehefin 2018** | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18**<br>• Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol.<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg ar gasgliad y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod 2017/18. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **24 Gorffennaf 2018** | **Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2017/18**<br>• Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn ofyniad yng ngweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys am y flwyddyn 2017/18. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **19 Medi 2018**<br>**12 Chwefror 2019** | **Argymhellion Archwilio Mewnol sy'n weddill**<br>• Adroddiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **19 Medi 2018** | **Siarter Archwilio Mewnol**<br>• Bydd adolygiad mewnol o'r Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor iddo ei gymeradwyo | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **19 Medi 2018**<br>**12 Chwefror 2019** | **Cofrestr Risg Gorfforaethol**<br>• Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, ofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **19 Medi 2018**<br>**12 Chwefror 2019** | **Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **19 Medi 2018** | **Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18**<br>Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu felly:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/18,<br>• derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a<br>• chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **4 Rhagfyr 2018** | **Adolygiad o'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg**<br>• Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **4 Rhagfyr 2018** | **Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reolaeth Trysorlys ar gyfer 2018/19**<br>• Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, fel gofyniad sylfaenol, adrodd ar y sefyllfa canol blwyddyn o ran rheoli'r trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol ar fuddsoddiadau a benthyca. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **12 Chwefror 2019** | **Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2019/20**<br>• Yn unol â'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (2017), rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu cymeradwyo | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>**MarionPryor@ynysmon.gov.uk** |
| **12 Chwefror 2019** | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20 a'r Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2019/20**<br>• Mae gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli CIPFA mewn perthynas ag Arferion Rheoli Trysorlys yn argymell y dylai awdurdodau lleol adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar eu strategaeth a chynllun rheoli, cyn cychwyn y flwyddyn.<br>• Bydd yr adroddiad yn sôn am y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol ar gyfer 2019/20 yn unol â gofynion y Côd Darbodus. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**MarcJones@ynysmon.gov.uk** |
| **12 Chwefror 2019** | **Cofrestr Risg Gorfforaethol**<br>• Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, gofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>**JulieJones@ynysmon.gov.uk** |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **12 Chwefror 2019** | **Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>**GethinMorgan@ynysmon.gov.uk** |